



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG48583**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Papur Gwyn

System fodern i dribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

Ionawr 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-285-0

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r diwygiadau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyn: System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y cynigion i ddiwygio tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru i greu fframwaith statudol ar gyfer un system dribiwnlysoedd unedig a chydlynol sy'n cynnwys dau dribiwnlys newydd, y cyfeirir atynt fel Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru yn y Papur Gwyn.

## **Camau i'w Cymryd**

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## **Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Polisi Cyfiawnder  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [JusticePolicy@llyw.cymru](mailto:JusticePolicy@llyw.cymru)

## **Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: [System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru](#)

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
Cefndir.....	5
Cyfathrebu ac Ymgysylltu.....	5
Ymatebion i'r ymgynghoriad.....	6
<b>2. Cwmpas ein diwygiadau.....</b>	<b>7</b>
Pennu'r tribiwnlysoedd datganoledig.....	7
<b>3. Strwythur newydd ar gyfer system dribiwnlysoedd Cymru.....</b>	<b>8</b>
System dribiwnlysoedd unedig i Gymru .....	8
Barnwriaeth ac aelodaeth tribiwnlysoedd.....	9
<b>4. Awdurdodaethau sy'n trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd ..</b>	<b>11</b>
Tribiwnlysoedd Cymru .....	11
Tribiwnlys Prasio Cymru.....	11
PANELI APÊL GWAHARDDIADAU O YSGOLION .....	13
PANELI APÊL DERBYNIADAU I YSGOLION .....	15
Trefnu gwaith Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.....	18
Yr egwyddor ar gyfer llwybrau apêl mewn deddfwriaeth Gymreig ddatganoledig .....	19
Tribiwnlys Apêl i Gymru .....	21
<b>5. Annibyniaeth .....</b>	<b>25</b>
Dyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth.....	25
Llw barnwrol .....	27
Annibyniaeth strwythurol – Tribiwnlysoedd Cymru .....	28
<b>6. Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru .....</b>	<b>32</b>
Rôl farnwrol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru .....	32
Dyletswyddau a swyddogaethau arfaethedig Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru .....	33
<b>7. Penodi a neilltuo .....</b>	<b>34</b>
Y Cynnig.....	34
Y trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi.....	35
Meini prawf ar gyfer penodi .....	36
Telerau ac amodau penodi .....	38
Neilltuo.....	39
Penodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.....	39
<b>8. Cwynion a disgyblu .....</b>	<b>41</b>

Cwynion am aelodau tribiwnlysoedd .....	41
Cwynion am weinyddiaeth y system dribiwnlysoedd newydd .....	43
<b>9. Rheolau Gweithdrefnol.....</b>	<b>44</b>
Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru .....	44
Pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol .....	45
Safoni rheolau gweithdrefnau .....	46
<b>10. Dod â chyfiawnder yn nes at bobl Cymru .....</b>	<b>49</b>
Cryfhau'r system gyfiawnder o dan y setliad cyfansoddiadol presennol .....	49
<b>11. Y Gymraeg.....</b>	<b>51</b>
Effaith y diwygiadau arfaethedig ar y Gymraeg.....	51
<b>12. Sylwadau ychwanegol .....</b>	<b>55</b>
<b>13. Ymatebion y tu allan i gwestiynau'r ymgynghoriad .....</b>	<b>58</b>
<b>Atodiad 1 – Rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad .....</b>	<b>64</b>

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

- 1.1. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn adeiladu ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas") a Chomisiwn y Gyfraith. Maent yn nodi'r bwriad i greu system driwlysoedd unedig i Gymru sy'n cynnwys dau driwlysoedd newydd, sef triwlysoedd y gwrandawriad cyntaf a thriwlysoedd apêl o dan arweinyddiaeth farnwrol Llywydd Triwlysoedd Cymru. Yn y Papur Gwyn, caiff y rhain eu galw'n Driwlysoedd Haen Gyntaf Cymru a Thriwlysoedd Apêl Cymru.
- 1.2. Mae'r system driwlysoedd yng Nghymru yn darparu gwasanaeth teilwng i bobl Cymru ond mae'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n sail iddi yn hen ac yn anhyblyg, ac nid ydynt yn gydlynol. Mae atebion wedi cael eu canfod ar gyfer gwahanol broblemau, ond 'plaster' dros dro ydynt, yn hytrach na gwellhad llwyr. Mae ffordd fwy clir, syml, effeithiol a chydlynol o weithredu system driwlysoedd Cymru yn hollbwysig i'r achos o sicrhau cyfiawnder i bobl Cymru.
- 1.3. Bydd system driwlysoedd ddiwygiedig yn sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau a datganoli swyddogaethau cyfiawnder i Gymru yn y dyfodol. Nid dod o hyd i un ateb i bawb yw'r pwrpas, ond cael system unedig sy'n gallu darparu ar gyfer gwahaniaethau rhwng awdurdodaethau.
- 1.4. Mae prosesau diwygio tebyg wedi cael eu cynnal yng ngwledydd eraill y DU, lle mae rhagor o ddatganoli a hanes hirach o gyfrifoldeb dros eu sefydliadau a'u seilwaith cyfreithiol eu hunain. Drwy gerdded yn ôl traed rhannau eraill o'r DU, gall Cymru ddysgu o'u llwyddiannau ac, mewn rhai meysydd, fynd ymhellach i hybu proses deg, effeithiol ac annibynnol o sicrhau cyfiawnder.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu


- 1.5. Roedd Asesiad Effaith Integredig drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn cyd-fynd â'r Papur Gwyn. Roedd y rhain yn amlinellu asesiad o'r effeithiau ac asesiad costau a manteision cychwynnol o'r cynigion yn y Papur Gwyn.
- 1.6. Gofynnwyd am safbwyntiau ar y Papur Gwyn a'r asesiadau cysylltiedig mewn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 19 Mehefin a 2 Hydref 2023. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu sylwadau drwy ffurflen ar-lein, dros e-bost i gyfeiriad e-bost pwrpasol, neu drwy'r post.
- 1.7. Datblygodd y Papur Gwyn yr argymhellion ar gyfer diwygio a wnaed gan Gomisiwn Thomas a Chomisiwn y Gyfraith, a gynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus ei hun rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 31 Mawrth 2021 ynghylch ei gynigion ar gyfer diwygio. Cafodd Comisiwn y Gyfraith 42 ymateb i'w ymgynghoriad.

- 1.8. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid at y Papur Gwyn dros e-bost pan gafodd ei gyhoeddi a dros e-bost ddwywaith eto cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Ar ben hynny, yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wedi hynny, rydym wedi cael cyfarfodydd â rhanddeiliaid er mwyn eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 1.9. Cafwyd cyfanswm o 54 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Cafwyd 38 ymateb gan ymatebwyr yng Nghymru, a naw gan ymatebwyr yn Lloegr. Ni ddywedodd saith ymatebydd a oeddent o Gymru neu Loegr.
- 1.10. Roedd 43 o'r ymatebwyr wedi ateb cwestiynau'r ymgynghoriad a nodwyd yn y Papur Gwyn yn uniongyrchol. Nid oedd 11 o'r ymatebwyr wedi ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad, gan gyflwyno eu safbwyntiau dros e-bost, mewn llythyr neu ar bapur yn lle. Mae safbwyntiau'r ymatebwyr hyn i'w gweld yn Adran 13: Ymatebion y tu allan i'r ymgynghoriad.
- 1.11. Mae Siart 1 yn dangos nifer yr ymatebion yn ôl categori ymatebwyr, gan gynnwys dadansoddiad o'r mathau o sefydliad. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr a gyfrannodd i'r ymgynghoriad ar gael yn Atodiad 1.

### Siart 1 – Nifer yr ymatebion yn ôl categori ymatebwyr



- 1.12. Roedd modd i bob ymatebydd ofyn am gael bod yn ddienw, ac mae 13 ohonynt wedi'u cadw'n ddienw yn y ddogfen hon drwyddi draw.
- 1.13. Cyflwynodd tri ymatebydd ymateb yn Gymraeg ac roedd dau o'r ymatebion yn ddwyieithog. Roedd y 49 ymateb arall yn Saesneg.
- 1.14. Mae'r ymatebwyr wedi'u rhestru yn Atodiad 1 ac mae'r ymatebion wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn y ffurf a'r iaith y cawsant eu cyflwyno.

## 2. Cwmpas ein diwygiadau

### Pennu'r tribiwnlysoedd datganoledig

#### Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno â'r tribiwnlysoedd yr ydym wedi'u nodi fel tribiwnlysoedd datganoledig ym mharagraff 22?

- 2.1. O blith y 33 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 30 (91%) yn cytuno â'r tribiwnlysoedd a nodwyd fel y tribiwnlysoedd datganoledig ym mharagraff 22 y Papur Gwyn, sef:
- a) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru;
  - b) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;
  - c) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (gyda thri thribiwnlys cyfansoddol: eiddo preswyl, prasio lesddaliadau; a phwyllgorau asesu rhenti);
  - d) Tribiwnlys Addysg Cymru (sydd hefyd yn rheoli awdurdodaethau tribiwnlysoedd wedi'u cyfansoddi i wrando ar apelïadau sy'n ymwneud â chofrestru arolygwyr ysgolion ac arolygwyr addysg feithrin);
  - e) Panel Dyfarnu Cymru;
  - f) Tribiwnlys y Gymraeg;
  - g) Tribiwnlys Prasio Cymru;
  - h) paneli apêl derbyniadau i ysgolion;
  - i) paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion.
- 2.2. Roedd pedwar o'r ymatebwyr hyn yn teimlo y gellid cynnwys paneli ychwanegol ar y rhestr: Dywedodd Dr Huw Evans o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru ac ymatebydd arall a oedd yn dymuno bod yn ddienw y gellid cynnwys y paneli ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd. Fodd bynnag, roedd Cyngor y Bar yn cytuno â'r Papur Gwyn (paragraff 25) nad yw paneli Gofal Cymdeithasol Cymru yn dribiwnlysoedd datganoledig.

- 2.3. Cafodd yr Arolygiaeth Gynllunio, paneli adolygu gofal iechyd y GIG a Phwyllgorau Coedwigaeth eu nodi gan un ymatebydd fel rhai addas o bosibl i'w cynnwys yn system dribiwnlysoedd Cymru maes o law. Hefyd, nododd yr aelodau sy'n ymarferwyr a'r aelodau academiaidd o Ganolfan Datrys Anghydfodau Cymru ("CDA Cymru") nad oedd rhai cyrff eraill a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith a/neu Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â nodweddion arfaethedig tribiwnlysoedd: "...yn golygu cyrff y mae CDA Cymru yn credu eu bod yn ymwneud â datrys anghydfodau".
- 2.4. O ran yr awgrym y gallai cyfiawnder ieuencid fod yn ymgeisydd posibl i'w gynnwys yn system dribiwnlysoedd Cymru (paragraff 68 y Papur Gwyn), dywedodd Dr Huw Evans o Brifysgol Metropolitan Caerdydd fod y pwnc sy'n cael ei ystyried gan dribiwnlys wedi'i gyfyngu i gyfraith sifil neu weinyddol fel arfer.
- 2.5. Roedd dau ymatebydd (6%) yn anghytuno â'r tribiwnlysoedd a nodwyd fel y tribiwnlysoedd datganoledig ym mharagraff 22 y Papur Gwyn. Ni ddarparwyd unrhyw fanylion penodol pam yr oedd yr ymatebwyr hyn yn anghytuno â'r cynnig.
- 2.6. Doedd 10 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad naill ai ddim wedi gwneud unrhyw sylw neu ddim yn dymuno gwneud sylw ar dribiwnlysoedd y tu hwnt i'w cylch gwaith penodol unigol.

### 3. Strwythur newydd ar gyfer system dribiwnlysoedd Cymru

#### System dribiwnlysoedd unedig i Gymru

##### Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno â'r strwythur a gynigir ar gyfer y system dribiwnlysoedd unedig i Gymru?

- 3.1. O blith y 32 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 28 (88%) yn cytuno â'r strwythur arfaethedig ar gyfer y system dribiwnlysoedd unedig i Gymru.
- 3.2. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn wedi amlinellu'r manteision y byddai'r strwythur arfaethedig yn eu creu yn eu barn nhw, gan gynnwys rhagor o hyblygrwydd yn y system, cysondeb prosesau gwneud penderfyniadau, prosesau cliriach a gwella proffil cyhoeddus y system dribiwnlysoedd. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y dylid ystyried enwau'r tribiwnlysoedd arfaethedig ymhellach. Dywedodd Cyngor y Bar: "*Bydd enw sy'n wahanol i'r system dribiwnlysoedd Eingl-Gymreig bresennol yn dangos hunaniaeth Gymreig benodol [y tribiwnlysoedd newydd] yn well*".



- 3.3. Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r strwythur mewn egwyddor wedi codi rhai pryderon, fel:
- Ni ddylai cylch gwaith y Tribiwnlys Apêl arfaethedig i Gymru ymestyn i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru).
  - *“Dylai'r hyblygrwydd a ragwelir i allu creu siambrau newydd, ychwanegu awdurdodaethau newydd a throsglwyddo awdurdodaethau rhwng siambrau, drwy is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghoriad priodol, fodoli o'r cychwyn cyntaf a bydd hynny'n ei gwneud hi'n haws darparu ar gyfer awdurdodaethau presennol ychwanegol pan fydd hi'n addas eu cynnwys yn y strwythur unedig, ac awdurdodaethau newydd pan fyddant yn cael eu creu.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
  - *‘...dylai'r gwaith o rannu Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf ac Apêl Cymru yn siambrau / is-adrannau, a dyrannu dosbarthiadau achosion rhyngddynt, fod o dan reolaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru...’* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).
  - O ran tribiwnlysoedd addysg, nodwyd na ddylid colli'r cyfranogiad lleol gan benaethiaid. (Dienw).
- 3.4. Roedd pedwar ymatebydd (12%) yn anghytuno â strwythur arfaethedig y system dribiwnlysoedd unedig i Gymru.
- 3.5. Ni wnaed sylw pellach gan ddau o'r ymatebwyr hyn. Dywedodd un o'r ymatebwyr hyn na ddylid cynnwys paneli apêl derbyn i ysgol oherwydd: *“Mae angen system hyblyg i fodloni anghenion rhieni yn ystod cyfnod heriol. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod derbyn yn rhoi lefel sylweddol o gymorth a gwybodaeth i'r apelyddion.”* (Dienw). Cwestiynodd ymatebydd arall (Cyngor y Bar) a oes angen rhannu'r tribiwnlysoedd yn siambrau.
- 3.6. Doedd gan 11 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Barnwriaeth ac aelodaeth tribiwnlysoedd**

#### **Cwestiwn 3**

Ydych chi'n cytuno â'r strwythur a gynigir ar gyfer aelodaeth y tribiwnlysoedd yn y system dribiwnlysoedd unedig?

- 3.7. O blith y 32 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 29 (91%) yn cytuno â'r strwythur arfaethedig ar gyfer aelodaeth tribiwnlysoedd yn y system dribiwnlysoedd unedig.

- 3.8. Nododd yr ymatebwyr hyn nifer o fanteision posibl i'r cynnig, fel y potensial i sicrhau rhagor o amrywiaeth mewn tribiwnlysoedd a dull gweithredu unedig ar draws siambrau. Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, *“Byddai system a dull gweithredu unffurf yn golygu bod system y tribiwnlysoedd yn llai cymhleth i ddinasyddion ei defnyddio ac yn gwella hygyrchedd y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Gallai mwy o unffurfiaeth hefyd godi proffil cyhoeddus y tribiwnlysoedd a'r hawliau sydd gan ddinasyddion i ddefnyddio system y tribiwnlys.”*
- 3.9. Cafodd amrywiaeth o argymhellion gwybodus a defnyddiol am fanylion y strwythur eu cynnig gan yr ymatebwyr hyn mewn cysylltiad ag adnoddau, gan gynnwys teitlau penodiadau, rolau a chyfrifoldebau, tâl a lleoliad daearyddol adnoddau.
- 3.10. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar adnoddau ac arbenigedd barnwrol priodol. O ran y Tribiwnlys Apêl arfaethedig i Gymru, roedd Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn argymhell y dylai fod: *“...hyblygrwydd yn y defnydd o adnoddau barnwrol yn y dyfodol pan fydd (ee) awdurdodaethau nad ydynt wedi'u nodi ar hyn o bryd (ee troseddau ieuencid) yn cael eu datganoli a'u cynnwys yn y strwythur hwn o bosibl, neu fod cynnydd sydyn yn y llwyth gwaith.”*
- 3.11. Roedd dau ymatebydd (6%) yn anghytuno â'r strwythur arfaethedig ar gyfer aelodaeth y tribiwnlysoedd yn y system dribiwnlysoedd unedig. Ni wnaed sylw pellach gan yr ymatebwyr hyn.
- 3.12. Nid oedd un ymatebydd (3%) yn cytuno nac yn anghytuno'n benodol â'r cynnig, ond mynegodd bryder ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau: *“Ar hyn o bryd, wrth wneud apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru, os rhoddir caniatâd mae achosion yn mynd ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys, ond prin yw'r achosion hyn. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith gallai hyn ei chael. Byddai rhan o'r diwygiadau yn golygu bod rheolau gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno, a byddai angen ymgynghori arnynt ymlaen llaw ar ôl eu gwneud.”* (Awdurdod Lleol Bro Morgannwg).
- 3.13. Doedd gan 11 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## 4. Awdurdodaethau sy'n trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd

### Tribiwnlysoedd Cymru

#### Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno y dylid trosglwyddo awdurdodaethau Tribiwnlysoedd Cymru i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru?

- 4.1. O blith y 33 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 30 (91%) yn cytuno y dylid trosglwyddo awdurdodaethau Tribiwnlysoedd Cymru i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.
- 4.2. Dyma safbwyntiau rhai o'r ymatebwyr hyn:
  - Dylid tarfu cyn lleied â phosibl heb unrhyw effeithiau niweidiol ar fusnes parhaus pob tribiwnlys.
  - Nododd un ymatebydd fod awdurdodaethau eraill yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl, gan gynnwys rhai yn Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys Haen Gyntaf y DU, y gellid eu trosglwyddo i'r system tribiwnlys newydd i Gymru.
  - Nododd rhai ymatebwyr y byddai uno a symleiddio'r tribiwnlysoedd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i Awdurdodau Lleol a dinasyddion.
- 4.3. O blith y 33 o ymatebwyr, roedd tri (9%) yn anghytuno â'r cynnig ac ni wnaethant unrhyw sylw pellach.
- 4.4. Doedd gan 10 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

#### Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylid, mewn egwyddor, trosglwyddo awdurdodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru?

- 4.5. O blith y 27 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 22 (81%) yn cytuno â'r cynnig.
- 4.6. Nododd nifer o ymatebwyr fod strwythur Tribiwnlys Prisio Cymru yn wahanol i dribiwnlysoedd datganoledig eraill, gan gynnwys ei fodel ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau. Er hynny, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod swyddogaethau'r Tribiwnlysoedd yn amlwg yn farnwrol eu natur. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn wedi gwneud sylwadau ynghylch sut gellid ymgorffori Tribiwnlys Prisio Cymru yn y system dribiwnlysoedd newydd. Cafwyd safbwyntiau gwahanol:

- *“Rydym yn cytuno, ond wrth wneud hynny rydym hefyd yn cydnabod y newidiadau y bydd yn rhaid eu gwneud i strwythur y tribiwnlys prisio fel tribiwnlys unedig...rydym yn cydnabod y byddai'n rhaid gwneud newidiadau strwythurol ac ymarferol, gan gynnwys y ffaith fod yr aelodau presennol yn wirfoddolwyr.”* (Propertymark).
- *“...ni ddylid trosglwyddo awdurdodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf cyn gwneud newidiadau mawr i'w gysoni â Thribiwnlysoedd eraill Cymru.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
- *“Rwy'n gwerthfawrogi bod model Tribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau yn wahanol i dribiwnlysoedd eraill sy'n cael eu trosglwyddo i mewn, ac nid wyf yn bychanu'r heriau ymarferol a fydd yn rhan o hyn – ond mae'r manteision (o ran gweinyddu cydlynol ac effeithlon, a chanfyddiad y system ddyfarnu fel un farnwrol ac annibynnol) yn golygu, yn fy marn i, nid yn unig y dylid trosglwyddo Tribiwnlys Prisio Cymru i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, ond y dylid gwneud hynny cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau'r manteision cyn gynted â phosibl. Nid wyf yn credu y ceir unrhyw fudd o oedi. Gellir trosglwyddo (ac, yn fy marn i, dylid trosglwyddo) heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r model dyfarnu presennol, a dylai unrhyw ddiwygiad i'r model hwnnw wedyn ddigwydd o fewn y system ddiwygiedig.”* (Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).

- 4.7. O blith y 27 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd pump (19%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth bedwar ymatebydd unrhyw sylwadau pellach, a nododd un ymatebydd fod Tribiwnlys Prisio Cymru yn gweithio'n wahanol. Mae'r model ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau, er enghraifft, yn wahanol yn Nhribiwnlys Prisio Cymru o'i gymharu â Thribiwnlysoedd Cymru. Mae paneli'r Tribiwnlys Prisio wedi'u strwythuro mewn ffordd debyg i'r ynadaeth leyg ac maent yn cynnwys aelodau lleyg a gynghorir gan glerc arbenigol. Ar ben hynny, gwirfoddolwyr yw'r aelodau lleyg hynny ac nid ydynt yn cael tâl, yn wahanol i aelodau Tribiwnlysoedd Cymru sydd i gyd bron yn cael ffi.
- 4.8. Doedd gan 16 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 6**

Ydych chi'n cytuno, os na fydd awdurdodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei throsglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, y dylai ddal i fod yn destun goruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru?

- 4.9. O blith y 24 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 19 (79%) yn cytuno, os nad yw awdurdodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei throsglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, y dylai barhau i fod yn destun goruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Dywedodd chwech o'r ymatebwyr hyn yn glir mai trosglwyddo yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

- 4.10. Dywedodd Tribiwnlys Prasio Cymru: *“Dylai Tribiwnlys Prasio Cymru fod yn destun goruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru os bydd yn dal y tu allan i'r strwythur tribiwnlysoedd unedig i ddechrau. Dylai'r oruchwyliaeth hon gynyddu ei gydlyniant â'r system dribiwnlysoedd datganoledig ehangach a byddai'r Tribiwnlys yn elwa ar gysylltiad agosach â Thribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.”*
- 4.11. Roedd pedwar ymatebydd (17%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth dri o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Dywedodd un ymatebydd fod Tribiwnlys Prasio Cymru: *“... yn gweithio'n dda fel tribiwnlys ar wahân ... [a bod ganddo] ... rywfaint o unffurfiaeth â Thribiwnlys Prasio Lloegr”* (Cyngor Sir y Fflint).
- 4.12. Roedd un ymatebydd (4%) yn ansicr ac ni wnaeth unrhyw sylw pellach.
- 4.13. Doedd gan 19 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Panelli apêl gwaharddiadau o ysgolion**

#### **Cwestiwn 7**

Ydych chi'n cytuno y dylid trosglwyddo awdurdodaeth paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru?

- 4.14. O blith y 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 24 (80%) yn cytuno y dylid trosglwyddo awdurdodaeth paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Dyma rai o safbwyntiau'r ymatebwyr hyn:
- *“Nid ydym yn credu mai ar chwarae bach mae'r rhai sy'n ymwneud â gwahardd plentyn o ysgol yn ystyried y penderfyniadau hynny, ond mae canlyniadau gwahardd o'r ysgol i blentyn ac i ysgol o'r arwyddocâd mwyaf.”* (SNAP Cymru).
  - *“O ystyried arwyddocâd y penderfyniadau hyn, mae'r Cyngor yn cytuno y byddai o fudd pe bai proses farnwrol ffurfiol yn eu pennu.”* (Cyngor Sir y Fflint)
  - *“Rydym yn cytuno y dylai Panel Addysg Cymru<sup>1</sup> feddu ar yr awdurdodaeth i gynnal gwrandawiadau gwahardd.<sup>2</sup> Mae'r Tribiwnlys eisoes yn gwrandao ac yn penderfynu ar honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd sy'n deillio o waharddiadau. Mae arbenigedd Aelodau Arbenigol y Tribiwnlys yn golygu mai ni sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau teg a chyfiawn sy'n annibynnol ar broses Ysgol neu Awdurdod Lleol unigol. Byddai pob apêl yn cael ei rheoli o dan un set o Reolau Tribiwnlys, gan sicrhau cysondeb*

<sup>1</sup> Tribiwnlys Addysg Cymru.

<sup>2</sup> Yr hyn sydd wedi'i gynnig yn y Papur Gwyn yw bod awdurdodaethau Tribiwnlys Addysg Cymru a'r paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion yn trosglwyddo i Siambr Addysg arfaethedig Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, sef Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn y Papur Gwyn.

*mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar draws Cymru, a hynny'n seiliedig ar y gyfraith. Dylai gwahardd fod yn destun craffu barnwrol o ystyried y pwysigrwydd i'r plant a'r bobl ifanc dan sylw.*" (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).

- *"O ystyried y cynnydd yn nifer yr achosion gerbron y paneli hyn ar ôl y pandemig, mae'n rhaid cael proses fwy cadarn lle mae rhagor o graffu ar benderfyniadau. O ran apeliadau ysgol, roeddem yn cytuno a'r cynnig i drosglwyddo i'r Tribiwnlys oherwydd manteision posibl cael proses a dull o wneud penderfyniadau sy'n fwy unedig, cyson a thryloyw mewn maes sy'n cael effaith sylweddol ar y plant dan sylw, ac ar eu haddysg a'u cyrhaeddiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes gennym lawer o'r rhain ym Mro Morgannwg ond efallai fod gan Gynghorau eraill, a'r pryder yma fyddai oedi posibl wrth brosesu."* (Awdurdod Lleol Bro Morgannwg).

4.15. Dywedodd un o'r ymatebwyr hyn fod eu sefydliad yn cytuno ond bod aelod annibynnol yn anghytuno: *"Gall goblygiadau penderfyniadau Paneli Gwahardd effeithio'n sylweddol ar ddisgyblion, athrawon, staff addysgu ac ymddiriedolwyr. Dylai gwybodaeth leol helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n deg, yn gadarn ac yn gallu gwrthsefyll craffu a herio. Dylid parhau i wrando arnynt ar lefel Awdurdod Lleol."* (Cyngor Sir Ceredigion).

4.16. Roedd pum ymatebydd (17%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Gwnaed sylwadau pellach gan y tri arall, gan gynnwys:

- *"Fel y cynigiwyd mewn cysylltiad â Phaneli Apêl Derbyniadau i Ysgolion, dylai'r awdurdodaeth hon aros y tu allan i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, ond dylid bod hawl apelio anghyfyngedig o Baneli Apêl Gwaharddiadau o Ysgolion i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambwr Addysg). Er hyn, cydnabyddir bod achos cryfach dros drosglwyddo'r awdurdodaeth hon i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf o'i chymharu ag awdurdodaeth Paneli Apêl Derbyniadau i Ysgolion."* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
- *"Mae'n werth nodi rhinweddau'r system bresennol, sy'n delio ag apeliadau gwahardd yn effeithlon ac sydd ar gael yn rhwydd i bob parti, gan gynnwys disgyblion, rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd mae gwrandawriadau'n cael eu rhestru'n gyflym, felly nid oes oedi sylweddol rhwng yr awdurdod lleol yn cael yr apêl a'r panel yn dyfarnu arni."* (Cyngor Dinas Casnewydd).
- *"Mae'r broses a'r model presennol yn gweithio'n dda gyda chyfranogiad a her gan Bennaeth lleol, yn ogystal â'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer y penderfyniadau hynny ar draws y rhanbarth."* (Dienw).

4.17. Roedd un ymatebydd dienw (3%) yn ansicr a dywedodd fod ganddo: *"...bryderon o ran a oes modd cadw at amserlenni, a allai effeithio ar allu'r plentyn i ddychwelyd i leoliad addysg."* Fodd bynnag, cydnabyddodd hefyd bod gwerth i'r cynnig, a fyddai'n: *"...rhoi pwysigrwydd haeddiannol i effaith gwahardd yn barhaol ar deuluoedd a'r plentyn"*.

- 4.18. Roedd pump o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn awdurdodau lleol ysgolion. Roedd pedwar o'r ymatebwyr hyn yn cytuno â'r cynnig. Roedd un o'r ymatebwyr hyn yn anghytuno â'r cynnig. Mae safbwyntiau'r ymatebwyr hyn wedi'u hadlewyrchu yn y dadansoddiad uchod.
- 4.19. Doedd gan 13 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### Paneli apêl derbyniadau i ysgolion

#### Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodaeth paneli apêl derbyniadau i ysgolion barhau i gael ei gweinyddu gan awdurdodau derbyn am y tro?

- 4.20. O blith y 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 21 (70%) yn cytuno y dylai awdurdodaeth paneli apêl derbyniadau i ysgolion barhau i fod dan weinyddiaeth awdurdodau derbyn am y tro. Dyma rai sylwadau gan yr ymatebwyr hyn:
- *“Mae'r sefyllfa o ran apeliadau derbyn i'r ysgol yn wahanol iawn i apeliadau gwahardd o'r ysgol. Er, yn fy marn i, ar dir egwyddor, y dylai apeliadau derbyn i'r ysgol fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, mae heriau ymarferol ymgorffori'r gwaith hwn yn y tribiwnlys newydd yn golygu na ddylai fod yn rhan o'r set gyntaf o drosglwyddiadau. Ond byddai'n ddefnyddiol peidio â gadael y trosglwyddiad yn gwbl benagored; a bod rhyw syniad o amseru yn cael ei roi...”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
  - *“Mae'r ffordd mae awdurdodau derbyn yn gweinyddu apeliadau drwy ddefnyddio aelodau panel annibynnol gyda chymorth cleric cyfreithiol yn arwain at benderfyniadau cadarn, cyson ac annibynnol. Mae apeliadau o'r fath yn codi'n aml, sy'n golygu bod aelodau panel yn gyfarwydd â'r egwyddorion ac yn cael cymorth cleric cyfreithiol arbenigol ar faterion o weithdrefn a chyfraith pan fydd angen, ac yn gallu defnyddio eu gwybodaeth leol.”* (Cyngor Sir y Fflint).
  - *“Mae paneli annibynnol yn cael hyfforddiant priodol ac maen nhw'n hen ddigon galluog i wrando ar yr apeliadau hyn. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau derbyn a'r clerod annibynnol yn darparu gwasanaeth pwrpasol, personol a thringar i apelwyr mewn proses emosiynol, sy'n achosi straen, ac yn gallu cyfathrebu ag apelwyr ar lefel bersonol iawn a chynnig hyblygrwydd o ran y gwrandawiadau eu hunain, sy'n gallu cael eu cynnal yn lleol a/neu ar-lein. Mae penderfyniadau ac apeliadau derbyn yn sensitif o ran amser, ac mae pob parti angen eglurder ynghylch penderfyniadau ymhell cyn y flwyddyn academaidd sy'n destun apêl. Byddai trosglwyddo i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn llesteirio'r broses hon i bob parti.”* (Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)

4.21. Roedd naw ymatebydd (30%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth bedwar o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Dyma safbwyntiau rhai o'r pum ymatebydd arall:

- *“Rydym yn credu mai nawr yw'r amser i gynnwys apeliadau derbyn a'u tynnu o brosesau gwneud penderfyniadau Awdurdodau Lleol. Mae cyfle i Dribiwnlys Addysg Cymru, fel corff barnwrol annibynnol ag arbenigedd ledled Cymru, wneud pob penderfyniad addysgol. Wedyn byddai'r holl apeliadau Addysg o dan un ymbarél ac yn cael eu hystyried yn gwbl annibynnol, wedi'u rheoli o dan un set o reolau.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
- *“Mae cyfle i'w gwneud hi'n bosibl plethu penderfyniadau derbyn i'r ysgol â phenderfyniadau anghenion addysgol arbennig i sicrhau eu bod yn cael sylw ar yr un pryd, neu fod paneli sy'n 'gwisgo dwy het' yn y Tribiwnlys Addysg yn gallu cyfuno a gwrando ar apeliadau lleoliadau anghenion addysgol arbennig ac apeliadau derbyn ar gyfer lleoedd ysgolion sy'n ymwneud â'r un ysgol neu'r un plentyn/teulu ar y cyd.”* (Dienw)
- *“Rydym yn credu y dylid trosglwyddo paneli apêl derbyniadau i ysgolion i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf – mae problemau ynghylch cysondeb dulliau a phrosesau gwneud penderfyniadau wedi bodoli am flynyddoedd lawer yn yr awdurdodaeth hon.”* (Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru)

4.22. Doedd gan 13 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 9**

Ydych chi'n cytuno y dylai apeliadau o baneli apêl derbyniadau i ysgolion fod ar gael ar bwynt cyfreithiol i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru?

4.23. O blith y 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 14 (48%) yn cytuno y dylai apeliadau o baneli apêl derbyniadau i ysgolion fod ar gael ar bwynt cyfreithiol i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Dyma safbwyntiau rhai o'r ymatebwyr hyn:

- *Rydym yn cymeradwyo llwybr a phroses bwrpasol ar gyfer apelio. Nid oes llwybr apelio pwrpasol ar hyn o bryd... Mae'n hollbwysig creu strwythur gweithdrefnol sy'n cael ei reoleiddio, ond rhaid iddo fod ar gael yn rhwydd ac yn ddealladwy i berson lleyg, oherwydd nodir bod y cwynion am y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud fel arfer gan ofalwyr/rhieni heb gynrychiolaeth gyfreithiol, ac y gellir eu gwneud gan bobl ifanc eu hunain... Nid ydym yn cytuno y dylai'r sail dros apelio fod yn gyfyngedig i bwynt cyfreithiol; dylai'r sail dros apelio allu ymwneud â ffeithiau neu'r gyfraith.”* (Cyngor y Bar).



- *“Byddai hyn yn gyswllt priodol a defnyddiol rhwng y paneli derbyn i’r ysgol a’r system dribiwnlysoedd diwygiedig yng Nghymru, nes bod y paneli wedi’u trosglwyddo’n gyfan gwbl.”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
- *“Byddai’r hawl apelio, ar bwynt cyfreithiol, yn erbyn penderfyniadau Paneli Apêl Derbyniadau i Ysgolion i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn cryfhau annibyniaeth y broses gwneud penderfyniadau.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).

4.24. Roedd pedwar o’r ymatebwyr (14%) yn cytuno’n rhannol â’r cynnig. Dyma safbwyntiau rhai o’r ymatebwyr:

- *“Mewn egwyddor, dylid gallu apelio ar bwynt cyfreithiol i Dribiwnlys Apêl Cymru... Ond rydym yn bryderus ynghylch canlyniad anfwriadol posibl trefniant o’r fath, sef os bydd disgybl yn dymuno herio penderfyniad panel ar bwynt cyfreithiol neu weithdrefnol, ni fydd hi’n bosibl, fel y mae ar hyn o bryd, ceisio adolygiad barnwrol yn y llys. Gan fod Cymorth Cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion llys, ond na fydd ar gael (yn ôl pob golwg) ar gyfer apelïadau i Dribiwnlys Apêl Cymru, gallai hynny arwain at leihau mynediad at gyfiawnder, yn hytrach na’i wella.”* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).
- *“Mae maint a natur dymhorol y penderfyniadau apêl hyn yn gofyn am benderfyniadau cyflym a phrydlon ar lefel leol. Felly, rydym yn cytuno na fyddai’r apelïadau hyn yn cyd-fynd yn dda â Thribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Fodd bynnag, mae angen unffurfiaeth o ran dull gweithredu a thryloywder mewn prosesau apelio er mwyn i bawb sy’n cael eu derbyn i’r ysgol gynnal hyder yn y broses mewn perthynas â phenderfyniadau derbyn pob awdurdod lleol a’r rhai sy’n cael eu rhedeg yn annibynnol. Felly, byddai’n fuddiol pe bai apelïadau o baneli apêl derbyniadau i ysgolion yn dilyn yr un weithdrefn ag apelïadau o baneli apêl gwaharddiadau o ysgolion.”* (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).

4.25. O blith y 29 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, roedd naw (31%) yn anghytuno â’r cynnig. Roedd dau ymatebydd heb wneud unrhyw sylw pellach ac roedd saith wedi, gan gynnwys:

- *“Rydym yn teimlo bod y broses eisoes yn annibynnol ac yn cynnwys yr haenau gofynnol i sicrhau tegwch. Gall rhieni atgyfeirio at yr Ombwdsmon os ydynt yn anfodlon ar y broses apelio annibynnol, neu herio cyfreithlondeb penderfyniad drwy Adolygiad Barnwrol.”* (Dienw).
- *“Dylid eu cynnwys yn awdurdodaeth newydd yr Haen Gyntaf gyda’r gallu i apelio ar bwynt cyfreithiol i Uwch Dribiwnlys Cymru. Ni ddylid defnyddio’r Haen Gyntaf fel awdurdodaeth apelïadol yn y modd hwn. Mae hyn yn cadw’r gwahaniaeth rhwng Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn gwneud canfyddiadau ffeithiol a seilio penderfyniadau arnynt, a gadael i’r Uwch Dribiwnlys ystyried gwallau cyfreithiol.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).

- *“Y cais am apêl yw cyfle cyntaf rhieni yn y broses, a’r apêl derbyn yw’r ail gyfle. Byddai rhoi trydydd cyfle i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn ormodol... Ar ben hynny, oherwydd nad oes gan apelwyr gynrychiolaeth mewn apeliadau derbyniadau i’r ysgol gan mwyaf ac nad oes ganddynt hawl i gymorth cyfreithiol, sawl apelydd fyddai’n gallu nodi ‘pwynt cyfreithiol’, felly rhagwelir y byddai’r rhan fwyaf o apelwyr aflwyddiannus yn apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, a fyddai’n golygu bod yn rhaid i awdurdodau, clerod a’r gwasanaeth tribiwnlys ddyrannu adnoddau ychwanegol sylweddol (nad ydynt ar gael) i weinyddu’r ail apêl.”* (Gwasanaethau Cyfreithiol Cynor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

- 4.26. Roedd dau ymatebydd (7%) yn teimlo bod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt i ffurfio barn.
- 4.27. Doedd gan 14 o’r ymatebwyr i gwestiynau’r ymgynghoriad ddim sylw i’w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Trefnu gwaith Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru**

#### **Cwestiwn 10**

Ydych chi’n cytuno â’r strwythur siambr cychwynnol yr ydym yn ei gynnig ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru?

- 4.28. O blith y 31 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, roedd 27 (87%) yn cytuno â’r strwythur siambr cychwynnol y gwnaethom ei gynnig ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Dyma safbwyntiau rhai o’r ymatebwyr hyn:
- *“Yn gynharach yn yr ymateb hwn i’r ymgynghoriad, rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd cadw arbenigedd. Rydym yn fodlon y byddai mabwysiadu dull gweithredu siambrau yn gwneud hyn. Rydym hefyd yn cydnabod y cyfleoedd ychwanegol i siambrau gydweithio pan fydd synergedd yn eu gwaith achos, gan ddefnyddio enghraifft y Tribiwnlys Prisio a’r Tribiwnlys Eiddo Preswyl.”* (Propertymark).
  - *“Er nad oes awdurdodaeth wedi’i nodi eto, mae hefyd yn ymddangos yn synhwyrol creu Siambr Reoleiddio Gyffredinol o’r cychwyn cyntaf er mwyn ei pharatoi ar gyfer ymgorffori awdurdodaethau fel y maen nhw’n dod i’r amlwg.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
  - *“Mae’n bosibl na fydd gan y Siambr Gyffredinol arfaethedig awdurdodaeth byth os bydd awdurdodaethau newydd yn trosglwyddo i siambrau wedi’u creu o’r newydd – ond er hynny, mae’n ymddangos bod achos cryf dros ei sefydlu.”* (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).

- *“Ydym, ond byddai'n well gennym pe bai'r Siambr sy'n cymryd gwaith Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn cael ei alw'n Siambr “Iechyd a Gofal Cymdeithasol”. Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod Iechyd Meddwl yn agwedd ar iechyd yn gyffredinol i bob pwrpas, ac yn ei gwneud hi'n bosibl trosglwyddo apeliadau rheoleiddiol gofal cymdeithasol”* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).

4.29. Roedd pedwar ymatebydd (13%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth dri ymatebydd unrhyw sylwadau pellach, ac roedd un ymatebydd yn anghytuno ar y strwythur mewn cysylltiad ag apeliadau derbyn i'r ysgol.

4.30. Doedd gan 12 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Yr egwyddor ar gyfer llwybrau apêl mewn deddfwriaeth Gymreig ddatganoledig**

#### **Cwestiwn 11**

Ydych chi'n cytuno, fel egwyddor arweiniol, y dylid gwrando ar anghydfodau sy'n deillio o gyfraith Cymru mewn sefydliad barnwrol yng Nghymru?

4.31. O blith y 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 29 (94%) yn cytuno â'r cynnig. Dyma safbwyntiau rhai o'r ymatebwyr hyn:

- *“Ydw ond yn ddwyieithog o leiaf, er mwyn cynnwys mwyafrif helaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru.”* (Dienw).
- *“Ydym, rydym yn cytuno... oni bai fod amgylchiadau sy'n mynnu fel arall wedi'u nodi gan ddadansoddiad llawn a manwl o bob cynnig.”* (SNAP Cymru).
- *“Mewn egwyddor, ydy, ond gan fod Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gweithredu o dan gyfraith y DU, nid cyfraith Cymru, rhaid i lwybr apêl y tribiwnlys hwn fod yr un fath â Thribiwnlys yr Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) gan fod apeliadau o'r ddwy awdurdodaeth yn rhwymo'r ddwy ochr. Mae'r status quo yn rheidrwydd cyfreithiol ac ymarferol.”* (Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru).
- *“Rwy'n cytuno: fel mater o egwyddor, dylai anghydfodau sy'n deillio o gyfraith Cymru gael eu pennu gan sefydliad sy'n atebol i bobl Cymru yn y pen draw, hy sefydliad barnwrol wedi'i sefydlu yng Nghymru o dan gyfraith Cymru sydd, er ei fod yn annibynnol, yn destun craffu priodol gan y Senedd. Mae hon yn egwyddor hollbwysig yn fy marn i.”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).

- *“Mae’n ddull synhwyrol a phriodol – a dylai fod yn berthnasol ar y lefelau haen gyntaf ac apêl. Dylid ymgorffori’r llwybrau apêl cyfredol mewn cysylltiad â thribiwnlysoedd datganoledig yn system dribiwnlysoedd Cymru (gan gynnwys gofal cymdeithasol). Os bydd rhagor o ddatganoli, caiff hyn ei gymathu i ‘gyfraith Cymru’ – a bydd angen adolygiad ategol o’r goblygiadau i system dribiwnlysoedd Cymru.”* (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).

4.32. O blith y 31 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, roedd dau (6%) yn anghytuno â’r cynnig. Ni wnaeth y ddau ymatebydd hyn unrhyw sylw pellach.

4.33. Doedd gan 12 o’r ymatebwyr i gwestiynau’r ymgynghoriad ddim sylw i’w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 12**

A oes unrhyw fathau penodol o anghydfod o dan gyfraith ddatganoledig sydd, yn eich barn chi, yn arbennig o addas i gael eu datrys gan dribiwnlys?

4.34. Roedd 18 o ymatebwyr wedi enwi’r mathau o anghydfodau a fyddai, yn eu barn nhw, yn arbennig o addas i gael eu datrys gan dribiwnlys. Roedd y rhain yn cynnwys:

- hawliau plant;
- diogelu;
- materion cyflogaeth;
- derbyn i’r ysgol a gwahardd o’r ysgol;
- gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion;
- gofal cymdeithasol;
- anghydfodau tai, ee cartrefi symudol, eiddo ar lesddaliad/trwydded;
- cyfraith/anghydfodau cynllunio.

4.35. Dyma sylwadau ychwanegol gan yr ymatebwyr hyn:

- *“Rydym yn credu bod nawr yn amser da ar gyfer adolygiad systematig o’r ystod gyfan o bwerau a gwasanaethau sy’n cael eu cyflawni yng Nghymru i sefydlu a ddylid creu hawliau apêl ychwanegol i’r system newydd.”* (Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru).

- *“Rydym yn credu y bydd gweithredu’r diwygiadau ADY yn arwain at ystod eang o anghydfodau tebygol sy’n addas i gael eu datrys gan dribiwnlys.”* (Kirsten Jones, Cynghrair Anghenion Ychwanegol Trydydd Sector Cymru).
- *“Llys Tai penodol fyddai dewis Propertymark o fodel deddfwriaethol ar gyfer anghydfodau tai. Yn y bôn, credwn y byddai hyn yn rhoi gwell mynediad at gyfiawnder i landlordiaid a thenantiaid sy’n rhan o anghydfodau tai. Yr anghydfod mwyaf cyffredin rhwng y partion hyn yw pan fydd landlord yn dymuno ceisio meddiant o’r eiddo. Ar hyn o bryd, gwrandewir ar hawliadau meddiant mewn Llysoedd Sir ac mae perfformiad gwael ac oedi yn eu llesteirio.”* (Propertymark).

4.36. Doedd gan 25 o’r ymatebwyr i gwestiynau’r ymgynghoriad ddim sylw i’w wneud/ddim yn dymuno enwi unrhyw fathau penodol o anghydfodau.

### **Tribiwnlys Apêl i Gymru**

#### **Cwestiwn 13**

Ydych chi’n cytuno y dylid cael Tribiwnlys Apêl i Gymru?

- 4.37. O blith y 32 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, roedd 29 (91%) yn anghytuno y dylid cael Tribiwnlys Apêl i Gymru. Dyma safbwyntiau rhai o’r ymatebwyr hyn:
- *“Wrth ystyried yr opsiwn hwn, mynegwyd pryder ynglŷn â chael gafael ar weithlu barnwrol. Nid ydym yn rhag-weld problem o’r fath. Fel y cydnabyddir yn y Papur Ymgynghori, mae’n bosibl defnyddio barnwriaeth sy’n cael ei thrawsdocynnu. Mae’n ddull dibynadwy ac mae’n cydnabod hyd a lled y farnwriaeth. Felly mae carfan o Farnwyr ar gael yn rhwydd. Mae angen achub ar y cyfle hwn nawr i wneud iawn am y diffygion blaenorol ac i hybu arferion da. Byddai Tribiwnlys Apêl arbenigol yn mynd i’r afael â’r holl bryderon hyn.”* (Cyngor y Bar).
  - *“Mae CDA Cymru’n cytuno y dylid cael Tribiwnlys Apêl i Gymru, sydd eto’n cyd-fynd â chydabyddiad a chefnogaeth CDA Cymru i ddull datrys anghydfodau sy’n egwyddorol ac yn benodol i Gymru. Mae CDA Cymru’n cytuno â Chomisiwn y Gyfraith – rhaid cydbwysu’r awydd hwn i gadw llwybrau apêl cyfredol yn erbyn yr angen i sicrhau bod y system yn gydlynol ac yn gweithio’n dda yn ei chyfanrwydd; a’i bod yn gallu datblygu a darparu ar gyfer llwybrau apêl newydd. Mae CDA Cymru’n credu y dylai cyfundrefnu a chysoni llwybrau apêl hwyluso’r gwaith o ddatblygu a defnyddio dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau yn egwyddorol.”* Canolfan Datrys Anghydfodau Cymru, Aelodau sy’n Ymarferwyr ac Aelodau Academaidd).

- *“Mae’n ymddangos yn synhwyrol creu Tribiwnlys Apêl i Gymru ac mai hwnnw fydd y corff apeliadol ar gyfer apeliadau sy’n deillio o benderfyniadau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, fel rhan o’r nod i sefydlu system farnwrol gydlynol yng Nghymru sydd yn syml ac yn reddfól. Fodd bynnag, ni ddylai Tribiwnlys Apêl Cymru ymgorffori unrhyw awdurdodaethau os nad yw’r farnwriaeth yn gwbl hyderus bod diffyg arbenigedd neu brofiad perthnasol.”* (Tribiwnlys Prasio Cymru).
- 4.38. Roedd dau ymatebydd (6%) yn anghytuno â’r cynnig. Ni wnaeth un ymatebydd unrhyw sylw pellach. Mynegodd un ymatebydd bryder ynglŷn â blaenoriaethau yng Nghymru a chost y diwygiadau.
- 4.39. Roedd un ymatebydd (3%) yn teimlo bod angen gwybodaeth ychwanegol arno i gael barn ar ba effaith fyddai’r cynnig hwn yn ei chael ar y diwygiadau i dribiwnlysoedd yn eu cyfanrwydd, o ystyried nifer isel yr apeliadau.
- 4.40. Doedd gan 11 o’r ymatebwyr i gwestiynau’r ymgynghoriad ddim sylw i’w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

#### **Cwestiwn 14**

Ydych chi’n cytuno mai Tribiwnlys Apêl Cymru ddylai fod y corff apeliadol ar gyfer apeliadau o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru oni bai fod rhesymau eithriadol sy’n mynnu bod darpariaeth wahanol yn cael ei gwneud?

- 4.41. O blith y 32 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, roedd 27 (85%) yn cytuno â’r cynnig. Dywedodd Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: *“Sail y cynnig hwn yw argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylid cael strwythur apelio eglur a chydlynol. Efen bwysig o’r strwythur hwnnw yw bod defnyddwyr (gan gynnwys canghennau o’r llywodraeth sy’n gwrthapelio) yn gwybod yn reddfól sut a ble gellid gwneud apêl yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf. Yn ogystal â hynny, fel yr wyf wedi’i nodi, os bydd apeliadau’n mynd i un corff, bydd hyn yn helpu i ddatblygu cyfreitheg Cymru yn gydlynol. Bydd y rhan fwyaf o’r gwaith o ddatblygu’r gyfraith yn digwydd ar lefel y Tribiwnlys Apêl: mae’n gywir yn egwyddorol ac yn ymarferol bod y llys ar y lefel honno yn sefydliad wedi’i greu yng Nghymru o dan gyfraith Cymru, ac felly’n atebol i bobl Cymru”.*
- 4.42. O blith y 32 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn, roedd dau (6%) yn teimlo y byddai dull gwahanol yn well ar gyfer eu tribiwnlysoedd penodol. Dyma sylwadau’r ymatebwyr hyn:
- Dywedodd y Barnwr Claire Sharp, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru: *“Os oes rhaid mabwysiadu llwybr unffurf, a ellid llunio cynllun hybrid ar gyfer Tribiwnlys Apêl Cymru wedi’i rannu’n ddwy adran – un o’r Uwch Dribiwnlys (wedi’i drawsdocynnu) ar gyfer y tribiwnlysoedd hynny sy’n cael eu gwasanaethu mewn ffordd o’r fath ar hyn o bryd, a’r llall o’r Uchel Lys ar gyfer y rhai lle mae apêl yn y cyfeiriad hwnnw? Mae anghenion y tribiwnlysoedd a’u defnyddwyr yn rhy amrywiol i’w rhoi mewn un grŵp unffurf... mae Panel Dyfarnu Cymru’n dal yn credu y dylai apeliadau*

*ohono aros gyda'r Llys Gweinyddol (Uchel Lys). Nid yw'n ymwybodol o unrhyw ddefnyddiwr neu gyfranogwr arall sy'n mynd ar drywydd llwybr apêl arall ar wahân i'r Uchel Lys."*

- Dywedodd y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, "*Mae angen darpariaeth wahanol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru... Mae mwyaf helaeth yr apeliadau'n deillio o lechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Meddwl)*<sup>3</sup>. Rydym yn dal wedi ein rhwymo gan ddyfarniadau'r Uwch Dribiwnlys. Mae cyfran sylweddol o'r cleifion sy'n cael eu cadw'n gaeth yng Nghymru yn preswyllo yn Lloegr fel arfer, a byddant yn cael eu rhyddhau i Loegr. Gallai unrhyw wahaniaeth yn y ddarpariaeth arwain at hawliadau Hawliau Dynol yn erbyn Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn aneglur beth fyddai'r llwybr ar ôl penderfyniadau Tribiwnlys Apêl Cymru ynghylch apeliadau."

- 4.43. Roedd tri ymatebydd (9%) yn anghytuno â'r cynnig ac ni wnaethant unrhyw sylw pellach.
- 4.44. Doedd gan 11 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 15**

Ydych chi'n cytuno y dylid trosglwyddo awdurdodaethau i Dribiwnlys Apêl Cymru dros amser ac y dylid eu trefnu'n siambrau drwy is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru?

- 4.45. O blith y 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 23 (74%) yn cytuno â'r cynnig yn llawn. Dyma safbwyntiau rhai o'r ymatebwyr:
- "*Ydw, ond rhaid cadw hyn i amserlen gymharol fyr, fel blwyddyn neu ddwy. Bydd cyfnod hirach yn achosi dryswch i bawb ac yn rhwystro cyfiawnder.*" (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
  - "*Mae trosglwyddo awdurdodaethau i Dribiwnlys Apêl Cymru yn raddol ac ar yr amser priodol, a phan fydd trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod gan y siambr dan sylw yr adnoddau arbenigol priodol i ddelio â'r math hwnnw o apêl, yn gynnig synhwyrol. Dylid rhannu Tribiwnlys Apêl Cymru yn siambrau a dylid creu'r rhain drwy is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac uwch aelodau o farnwriaeth Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.*" (Tribiwnlys Prisio Cymru).

<sup>3</sup> Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Tribiwnlys Haen Gyntaf y DU, sydd wedi'i rhannu'n nifer o lysoedd arbenigol, ac mae un ohonynt yn delio â gwrandawriadau iechyd meddwl.

4.46. O blith y 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd tri (10%) yn cytuno y dylid trosglwyddo awdurdodaethau i Dribiwnlys Apêl Cymru dros amser, ond roedd ganddynt sylwadau ychwanegol ar ei rannu'n siambrau:

- *“Ydw mewn egwyddor, ond mae CDA Cymru'n cydnabod y bydd llwyth achosion cychwynnol Tribiwnlys Apêl Cymru yn fach ac yn ymwneud â phwyntiau cyfreithiol, ac y gallai datblygu strwythur siambrau fod yn ddiangen am beth amser fel ffordd gymesur ac egwyddorol o ddatrys anghydfodau.”* (Ymarferwyr ac Academyddion, Canolfan Datrys Anghydfodau Cymru).
- *“Dylid defnyddio is-ddeddfwriaeth ar gyfer penderfyniadau ynghylch siambrau i gynnal hyblygrwydd. Mae angen cydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i atal pwysau gormodol a chynnal annibyniaeth. Yn ymarferol, y protocol tybiedig yw y bydd Gweinidogion Cymru yn rhannu siambrau yn ôl argymhelliad y Llywydd.”* (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).
- *“Er fy mod yn cytuno y dylid cael darpariaeth i Dribiwnlys Apêl Cymru gael siambrau, yn y cychwyn ni fyddai'r llwyth gwaith yn golygu bod angen unrhyw siambrau yn eu lle: ac yn fy marn i, ni fyddai siambrau'n briodol... Ar hyn o bryd, yn fy marn i, y ffordd orau o weinyddu apeliadau yw heb raniad ac o dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (a fyddai, i bob pwrpas, yn Llywydd Tribiwnlys Apêl Cymru) nes bod y llwyth gwaith yn golygu bod siambrau'n briodol ac yn ddefnyddiol.”* (Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).

4.47. O blith y 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd tri (10%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaethant unrhyw sylw pellach yn esbonio pam. Dywedodd dau ymatebydd (6%) y byddai trosglwyddo awdurdodaethau apeliadol i Dribiwnlys Apêl arfaethedig Cymru yn raddol yn achosi dryswch ynghylch y llwybrau apêl sy'n berthnasol yng Nghymru:

- *“Os yw “dros amser” yn awgrymu unrhyw oedi sylweddol cyn trosglwyddo awdurdodaethau, byddem yn gwrthwynebu hynny. Unwaith y mae'r Tribiwnlys Apêl wedi'i sefydlu, byddai'n achosi cryn ddryswch ac anghysondeb petai rhai apeliadau'n parhau i fynd i Uwch Dribiwnlys y DU.”* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).
- *“... rydym yn bryderus y gallai'r dull cyflwyno'n raddol sy'n cael ei gynnig achosi dryswch, oherwydd byddai gwahanol lwybrau apêl yn bodoli ar wahanol amseroedd... Byddai cyflwyno'r tribiwnlys apêl arfaethedig, ei awdurdodaeth lawn a'r dynodiad cywir o lwybrau apêl ar yr un pryd yn ddull gwell. Hyd yn oed os yw hyn yn golygu bod y dyddiad dechrau'n hwyrach nag y gallai fod ar gyfer rhai rhannau o'r awdurdodaeth, byddai'n lleihau'r posibilrwydd o ddryswch, o wahanol ddulliau dehongli, ac yn fwy trefnus yn gyfansoddiadol.”* (Cyngor y Bar).



- 4.48. Doedd gan 12 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## 5. Annibyniaeth

### Dyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth

#### Cwestiwn 16

Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd statudol arfaethedig i gynnal annibyniaeth farnwrol fod yn berthnasol i bawb sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder fel y mae hynny'n berthnasol i'r system driwlynlysoedd ddiwygiedig yng Nghymru?

- 5.1. O blith y 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 29 (94%) yn cytuno â'r cynnig, sef y dylai'r ddyletswydd statudol arfaethedig i gynnal annibyniaeth farnwrol fod yn berthnasol i bawb sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder fel y mae hynny'n berthnasol i'r system driwlynlysoedd ddiwygiedig yng Nghymru.
- 5.2. Roedd nifer o ymatebion yn gadarnhaol iawn ynghylch y cynnig. Er enghraifft, dywedodd y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru: "*Yn bendant. Mae'n gam hollbwysig y mae'n rhaid ei sefydlu'n glir cyn trosglwyddo pwerau awdurdodaethol.*"
- 5.3. Dywedodd Dr Huw Evans o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru'n cynnal annibyniaeth aelodau triwlynlysoedd Cymru, fod yn rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol amddiffyn yr annibyniaeth honno hefyd. Daeth i'r casgliad fod yn rhaid i aelodau triwlynlysoedd Cymru gael y cymorth angenrheidiol i'w galluogi i arfer ei swyddogaethau.
- 5.4. Mynegodd SNAP Cymru gefnogaeth i argymhellion Comisiwn y Gyfraith o ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y triwlynlysoedd datganoledig. Roeddent hefyd yn cytuno â chasgliad Comisiwn Thomas, sef y dylai'r farnwriaeth a sefydliadau eraill gael perthynas annibynnol â Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Roedd nifer o sylwadau eraill o blaid annibyniaeth farnwrol gwbl atebol:
- "*Rydym yn cytuno â'r ddyletswydd statudol arfaethedig i gynnal annibyniaeth farnwrol.*" (Propertymark).
  - "*I gynnal hyder yn system gyfiawnder ddiwygiedig Cymru, mae angen dyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth farnwrol.*" (Tribiwnlys Prisio Cymru).
  - "*Mae hon yn elfen hollbwysig o'r newid.*" (Dienw).
- 5.5. Roedd dau ymatebydd (6%) yn anghytuno â'r cynnig ac ni wnaethant unrhyw sylw pellach.

- 5.6. Doedd gan 10 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 17**

Pwy, yn eich barn chi, y dylid eu cynnwys ar y rhestr o'r rhai sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder fel y mae'n berthnasol i'r system dribiwnlysoedd ddiwygiedig yng Nghymru?

- 5.7. Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd naw ymatebydd yn credu y dylid cynnwys y Prif Weinidog ar y rhestr o'r rhai sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder fel y mae'n berthnasol i'r system dribiwnlysoedd ddiwygiedig yng Nghymru. Roedd 10 ymatebydd yn credu y dylid cynnwys y Cwnsler Cyffredinol. Roedd dau ymatebydd yn credu y dylai'r cyfrifoldeb ymestyn i holl Weinidogion Cymru.
- 5.8. Cafwyd ymateb cymysg i'r posibilrwydd o gynnwys aelodau o'r Senedd. Roedd pum ymatebydd yn credu y dylid eu cynnwys, a thri yn erbyn hynny. Roedd un ymatebydd yn credu y dylai fod yn gwestiwn i'r Senedd ac roedd un yn credu y gellid cynnwys AS pe bai'n meddu ar gyfrifoldeb perthnasol, er enghraifft drwy fod yn un o Weinidogion Cymru, yn hytrach na bod y ddyletswydd honno'n ymestyn i bob aelod o'r Senedd fel y cyfryw. Roedd Cyngor y Bar yn credu y byddai'n anodd gosod y ddyletswydd ar aelodau o'r Senedd. Cyfeiriodd Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru at y dyletswyddau sydd eisoes wedi'u gosod ar aelodau o'r Senedd i weithredu, wrth ddeddfu, mewn ffordd sy'n gyson ag annibyniaeth y farnwriaeth.
- 5.9. Roedd dau ymatebydd yn credu y dylai'r ddyletswydd i gynnal annibyniaeth fod yn berthnasol i rai barnwyr ac aelodau o dribiwnlysoedd. Er enghraifft, awgrymodd Cyngor y Bar y dylai hyn gynnwys: *"Barnwyr arweiniol, ac unrhyw farnwr arall sydd â chyfrifoldebau gweinyddol"*.
- 5.10. Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys: Cymdeithas y Cyfreithwyr, Undebau Llafur Cyfiawnder, staff Llywodraeth Cymru neu Dribiwnlysoedd, gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas, Gweinidog Cyfiawnder wedi'i greu o'r newydd, cyfreithwyr ieuchyd meddwl, a'r cyhoedd.
- 5.11. Dywedodd dau ymatebydd y byddai angen rhagor o wybodaeth arnynt, a dywedodd un nad oedd yn gwybod.
- 5.12. Doedd gan 17 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Llw barnwrol

### Cwestiwn 18

A oes angen i holl aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru dyngu llw neu gadarnhad o'u hymrwymiad i gynnal annibyniaeth farnwrol?

- 5.13. O blith yr 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 20 (72%) yn cytuno bod angen i holl aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru dyngu llw neu gadarnhad o'u hymrwymiad i gynnal annibyniaeth farnwrol.
- 5.14. Dywedodd Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: "*Mae'r llw barnwrol a'r llw teyrngarwch ill dau yn hollbwysig i hyder y cyhoedd yn y farnwriaeth, ac i'r canfyddiad o annibyniaeth farnwrol*". Disgrifiodd ymatebydd arall sut mae llw: "*... yn dangos i'r cyhoedd eu hymrwymiad i sicrhau cyfiawnder a thegwch.*"
- 5.15. Dywedodd y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, fod y tribiwnlys hwnnw wedi gweithredu heb lw na chadarnhad, ond ei bod yn gallu gweld mantais llw neu gadarnhad o ran helpu aelodau i allu trawsdocynnu i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Gwnaeth ymatebydd arall bwynt tebyg o ran trawsdocynnu.
- 5.16. Roedd pedwar ymatebydd (14%) yn anghytuno ac roedd pedwar (14%) yn ansicr neu wedi mynegi amwysedd. Dywedodd un ymatebydd, er nad oedd yn hoff o egwyddor llw: "*... o ystyried yr arwyddocâd hanesyddol a symbolaidd ar draws systemau cyfiawnder y DU, a'r arwyddocâd ymarferol o ran y canfyddiad o annibyniaeth farnwrol, rydym yn cefnogi hyn.*" (Cyngor Sir y Fflint).
- 5.17. Doedd gan 15 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### Cwestiwn 19

A oes gennych farn ar ffurf arfaethedig y llw neu'r cadarnhad, os caiff un ei fabwysiadu?

- 5.18. Roedd gan 16 o ymatebwyr farn ar ffurf arfaethedig y llw.
- 5.19. Soniodd pum ymatebydd am bwysigrwydd diweddarau'r llw barnwrol a'r llw teyrngarwch cyfredol ar gyfer cymdeithas fodern.
- 5.20. Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys: roedd dau ymatebydd yn credu na ddylai'r llw gyfeirio at grefydd o gwbl; cynigiodd un dyngu llw ar y Beibl; ac roedd un yn ffafrio cadarnhad dros lw: "*gan ei fod yn darparu ar gyfer pobl aml-ffydd a di-ffydd*" (Awdurdod Lleol Bro Morgannwg). Byddai'n well gan ddau ymatebydd pe na bai'r term 'teyrnas' yn cael ei ddefnyddio, ac roedd un arall yn credu y gallai cyfeirio at 'y Brenin' fod yn gynhennus.

- 5.21. Roedd dau ymatebydd yn credu y gellid defnyddio'r ffurf sy'n berthnasol yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EF, ac roedd dau arall yn fodlon ar y ffurf ym mharagraff 94 yr ymgynghoriad.
- 5.22. Awgrymodd Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru:
- *“Rwyf i \_\_\_ yn tyngu y byddaf yn cyflawni dyletswyddau y swydd \_\_\_ yn gymwys ac yn ffyddlon, ac y byddaf yn gwneud hynny'n gyfiawn, yn ddiuedd ac yn annibynnol, yn unol â'r gyfraith.”*
- 5.23. Doedd gan 27 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar ffurf arfaethedig y llw.

### **Annibyniaeth strwythurol – Tribiwnlysoedd Cymru**

#### **Cwestiwn 20**

Ydych chi'n cytuno â chreu corff statudol hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol am weinyddu'r system driwlynlysoedd newydd yng Nghymru?

- 5.24. O blith y 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 29 (94%) yn cytuno â chreu corff statudol hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol am weinyddu'r system driwlynlysoedd newydd yng Nghymru.
- 5.25. Dywedodd tri o'r ymatebwyr hyn yn benodol y byddai hyn yn cryfhau annibyniaeth y tribiwnlysoedd. Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru, *“Mae'r gwahanu sefydliadol hwn yn elfen angenrheidiol wrth sefydlu system tribiwnlys wirioneddol annibynnol i Gymru yng ngolwg ei defnyddwyr. Bydd y sefydliad, o safbwynt barnwrol a gweinyddol, mewn sefyllfa llawer gwell i honni nad yw o dan ddylanwad unrhyw sefydliad arall.”*
- 5.26. Mynegodd dau ymatebydd bryder ynglŷn â'r term 'hyd braich'. Roedd Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru yn credu bod y term hwn *“ar y gorau yn amhenodol ac ar y gwaethaf yn gamarweiniol”* ac roedd yn well ganddi *“endidau statudol ar wahân er mwyn sicrhau y bydd ...[y corff] yn gyfreithiol annibynnol ar Lywodraeth Cymru”*. Dywedodd ymatebydd arall: *“mwy na hyd braich – ar wahân yn gyfan gwbl. Wedi'i benodi'n ddemocrataidd ac nid gan Weinidog.”* (Dienw).
- 5.27. Roedd dau ymatebydd (6%) yn anghytuno â chreu corff hyd braich. Dywedodd un ei bod hi: *“Yn anghytuno â chyrff statudol ychwanegol”* (Angela Hopkin), a dywedodd y llall ei fod yn: *“wastraff o arian y trethdalwr ar fater sy'n brosiect coegfalchder datganoli, mater sydd ddim yn bwysig i fwyafrif helaeth trethdalwyr Cymru”* (Dienw).
- 5.28. Doedd gan 12 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 21

Ydych chi'n credu y dylai'r corff statudol arfaethedig gael ei gyfansoddi fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, fel Adran Anweinidogol, neu fel rhywbeth arall? Pam?

- 5.29. Cafwyd 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 5.30. Mynegodd naw o'r ymatebwyr hyn (31%) gefnogaeth ar gyfer Adran Anweinidogol. Nododd tri ohonynt mai dyma oedd argymhelliad Comisiwn Thomas a Chomisiwn y Gyfraith. Dywedodd pob un o'r chwe ymatebydd sy'n weddill y byddai'r cyfansoddiad hwn yn hybu gwell annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru.
- 5.31. Nid oedd chwech o'r ymatebwyr (21%) yn ffafrio math o gorff statudol cyhyd â bod annibyniaeth y corff wedi'i sicrhau.
- 5.32. Roedd pump o'r ymatebwyr (17%) yn credu y dylai Llywodraeth Cymru noddi'r corff. Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru y byddai'r ateb hwn yn: "...*darparu gwell canfyddiad o annibyniaeth*", a: "*Gellid cysoni amodau gwasanaeth staff â rhai'r Gwasanaeth Sifil*". Roedd Gethin Jones o Grŵp Undebau Cyfiawnder Cymru hefyd yn awyddus i'r corff gynrychioli aelodau o Undebau Llafur Cyfiawnder.
- 5.33. Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan bump o'r ymatebwyr (17%):
- "...*corff corfforedig statudol annibynnol yn debyg i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban.*" (Cymdeithas Gyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).
  - "*Dylai fod yn system farnwrol annibynnol – nid oes angen enw mwy ffansi na hynny arno, dylai fod yn dryloyw iawn ac ni ddylai fod yn bendrwm, gyda llwyth o fiwrocratiaid yn ychwanegu dim byd.*" (Dienw).
  - Endid cyfreithiol ar wahân: "... *hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n meddu ar gyfrifoldeb gweithredol dros weinyddu'r system dribiwnlysoedd newydd... [i] gyflawni'r gwahaniad strwythurol a'r annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru.*" (SNAP Cymru).
- 5.34. O blith y pedwar ymatebydd sy'n weddill (14%), nid oedd un am gael unrhyw gorff statudol. Dywedodd dau "Na" a dim mwy, ac roedd un ymatebydd yn ansicr.
- 5.35. Doedd gan 14 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 22

Yn eich barn chi, a ddylai Cadeirydd Bwrdd y corff statudol fod yn benodiad gan Weinidogion Cymru, neu a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn Gadeirydd yn rhinwedd ei swydd?

- 5.36. Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 5.37. O blith yr ymatebwyr i'r cwestiwn, roedd 15 (60%) yn credu y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn Gadeirydd Bwrdd y corff statudol yn rhinwedd ex officio. Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y byddai hyn yn arwain at system fwy annibynnol a theg. Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru: *“Gan mai cefnogi swyddogaethau barnwrol y tribiwnlysoedd fydd swyddogaeth Tribiwnlysoedd Cymru, dylai fod o dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn y pen draw, fel Cadeirydd y Bwrdd ex officio.”*
- 5.38. Nid oedd pedwar ymatebydd (16%) yn ffafrio'r naill opsiwn na'r llall ac roeddent yn canolbwyntio ar yr angen i'r penodiad gael ei *“ethol yn ddemocrataidd”*, a bod yn *“... benodiad cyhoeddus teg... ni ddylai fod yn benodiad gwleidyddol”*.
- 5.39. Roedd pedwar ymatebydd (16%) wedi dweud *“bendant ddim”* neu *“Nac ydw”* mewn ymateb i'r cwestiwn.
- 5.40. Roedd un ymatebydd (4%) yn cytuno y dylai Cadeirydd Bwrdd y corff statudol fod yn benodiad gan Weinidogion Cymru.
- 5.41. Dywedodd un ymatebydd (4%) *“Ydw”* mewn ymateb i'r cwestiwn.
- 5.42. Doedd gan 18 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 23

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r system dribiwnlysoedd newydd yn Nhabl 1?

- 5.43. Cafwyd naw ymateb i'r cwestiwn hwn.
- 5.44. Cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud gan Dr Huw Evans o Brifysgol Metropolitan Caerdydd:
- *“Rhaid i unrhyw bŵer cyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru i Dribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfyngedig ac yn gwbl angenrheidiol.”*
  - *“Gellir rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â swyddogaethau arfaethedig (yn ogystal â swyddogaethau sydd eisoes yn bodoli neu, yn fwy cyffredinol, gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru).”*

- *“Mae’r angen am bŵer i Lywodraeth Cymru gamu mewn pan fydd Tribiwnlys Cymru heb gyflawni wedi’i ddeall ond byddai’n fuddiol comisiynu gwaith sy’n archwilio’r amgylchiadau lle gallai hyn ddigwydd (ac y gallai wedyn ddylanwadu ar drefniadau polisi a’r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig).”*
  - *“Awgrymir y gall Tribiwnlysoedd Cymru benodi pwyllgorau a dirprwyo pwerau iddynt. Beth am ymestyn y ddarpariaeth i is-bwyllgorau? Mae’n bosibl y bydd pwyllgorau Tribiwnlysoedd Cymru yn dymuno sefydlu is-bwyllgor.”*
  - *“A ddylai Tribiwnlysoedd Cymru gael pŵer cyffredinol i wneud pethau sy’n ffafriol neu’n atodol i gyflawni unrhyw o’i swyddogaethau? Gweler, ee, Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 111.”*
- 5.45. Dywedodd Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: *“... mae’n amlwg y bydd llwyth gwaith gweinyddol sylweddol yn gysylltiedig â’r corff statudol newydd, ac y bydd angen staffio’n briodol ac yn ofalus, ac adnoddau sylweddol ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw.”*
- 5.46. Dywedodd cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru y byddai angen cael: *“... corff goruchwyllo â’r rôl o adolygu gwaith y tribiwnlys newydd yn rheolaidd o safbwynt y defnyddiwr.”*
- 5.47. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion: *“Cytunir na ddylai Gweinidogion fod yn gyfrifol am weinyddu o ddydd i ddydd.”*
- 5.48. Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru: *“Mae’n ymddangos bod y trefniadau sydd wedi’u rhestru yn gynhwysfawr ac yn darparu ar gyfer popeth mewn cysylltiad â gweinyddu’r system dribiwnlysoedd newydd.”*
- 5.49. Dyma sylwadau’r pedwar ymatebydd arall:
- *“Dylai fod yn syml, yn rhad ac yn dryloyw.”* (Dienw).
  - *“Rhaid ariannu’r system dribiwnlysoedd newydd yn briodol a thalu deiliaid swyddi barnwrol yn briodol am eu gwaith.”* (Dienw).
  - *“Bydd angen cymryd gofal i deilwra Rheoliadau yn ôl anghenion a gwaith Tribiwnlysoedd unigol, yn ogystal â Rheoliadau cyffredinol.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).

## 6. Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

### Rôl farnwrol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru

#### Cwestiwn 24

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr llywyddol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru, gan allu eistedd fel barnwr yn y tribiwnlysoedd hynny?

- 6.1. Cafwyd 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 23 o ymatebwyr (82%) yn cytuno y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr llywyddol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru, gan allu eistedd fel barnwr yn y tribiwnlysoedd hynny.
- 6.2. Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru: *“Mae'n ddull synhwyrol ac mae'n sicrhau bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn parhau i ddeall a chydabod, ar lefel dydd i ddydd, yr awdurdodaethau y mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol drostynt.”* Hefyd, dywedodd Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: *“Rwy'n credu'n gadarn iawn y dylai unrhyw arweinydd barnwrol eistedd yn yr awdurdodaethau y mae'n eu harwain”.*
- 6.3. Dywedodd Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd: *“Mae'n ymddangos yn anghywir yn egwyddorol i beidio â rhoi hawl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru eistedd yn achosion naill ai Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru neu Tribiwnlys Apêl Cymru”.*
- 6.4. Roedd pum ymatebydd (18%) yn anghytuno â'r cynnig. Roedd un ymatebydd yn credu y dylid cael barnwr llywyddol gwahanol ar gyfer y broses apelio, a dywedodd dau ymatebydd:
  - *“Ni ddylai'r Llywydd allu cynnal adolygiadau a gwneud penderfyniadau ar achosion, ac felly ni ddylai fod yn rhan o'r gwaith o ddyfarnu ar achosion.”* (Dienw).
  - *“Nac ydw – rhaid cael rhywfaint o wahaniad”* (Dienw).
- 6.5. Doedd gan 15 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.



## Dyletswyddau a swyddogaethau arfaethedig Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

### Cwestiwn 25

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ychwanegu at swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru drwy gyflwyno dyletswyddau, swyddogaethau a phwerau statudol i'r swydd, fel y nodir yn y Papur Gwyn hwn?

- 6.6. O blith y 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 25 (86%) yn cytuno â'r cynnig i ychwanegu at swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru drwy gyflwyno dyletswyddau, swyddogaethau a phwerau statudol i'r swydd.
- 6.7. Dywedodd Tribiwnlys Priso Cymru: *“Mae'n ymddangos bod y cynigion i gyflwyno dyletswyddau, swyddogaethau a phwerau statudol i'r swydd yn ychwanegu at swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a byddent eto'n sicrhau bod arweinydd barnwrol y system dribiwnlysoedd newydd yng Nghymru yn mabwysiadu dull gweithredu cyfannol.”*
- 6.8. Dywedodd y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru: *“Ni fydd hi'n bosibl i'r Llywydd weithredu'n annibynnol ac yn effeithiol heb ddeddfwriaeth o'r fath”, ac roedd ymatebydd arall yn cytuno mewn egwyddor ag ychwanegu at y pwerau arwain, ond roedd am weld: “rhagor o fanylion ynghylch pwerau unigol”.*
- 6.9. Roedd Canolfan Datrys Anghydfodau Cymru'n cytuno â'r cynigion, ond hefyd yn dymuno tynnu sylw at y gofyniad statudol sydd eisoes yn bodoli, sef i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru roi sylw i'r *“...angen i ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys y math o anghydfodau y gellid eu dwyn gerbron y tribiwnlysoedd hyn” (Deddf Cymru 2017, adran 60(4)(d)).*
- 6.10. Dywedodd Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ei fod yn dymuno: *“...pwysleisio pwysigrwydd y swyddogaeth o benderfynu ynghylch cwynion yn erbyn aelodau o'r naill dribiwnlys arfaethedig neu'r llall sy'n gyfrifoldeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru”.* Roedd Dr Huw Evans o Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn cytuno â'r cynnig, ond nododd fod angen: *“egllurder ynghylch y rôl”.*
- 6.11. Roedd tri ymatebydd (10.5%) yn anghytuno. Dywedodd un: *“rhaid cael gwahaniad”* (Dienw).
- 6.12. Dywedodd un ymatebydd dienw (3.5%): *“Rhai, nid pob un”.*
- 6.13. Doedd gan 14 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## 7. Penodi a neilltuo

### Y Cynnig

#### Cwestiwn 26

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion arweiniol ar gyfer penodi aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru?

- 7.1. O blith yr 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 23 (82%) yn cytuno â'n hegwyddorion arweiniol ar gyfer penodi aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.
- 7.2. Dywedodd Tribiwnlys Priso Cymru: *“Bydd yr egwyddorion arweiniol ar gyfer penodi aelodau yn diogelu annibyniaeth y system dribiwnlysoedd newydd ac yn sicrhau tegwch, cysondeb, eglurder a thryloywder yn y broses penodi.”*
- 7.3. Cafodd rhai argymhellion eraill eu gwneud gan yr ymatebwyr a oedd yn cytuno, gan gynnwys:
  - y posibilrwydd o sefydlu bwrdd penodiadau barnwrol a fydd yn gyfrifol am y broses o benodi deiliaid swyddi barnwrol yng Nghymru;
  - ychwanegu ymrwymiad i sicrhau cyfiawnder yng Nghymru yn yr egwyddorion arweiniol.
- 7.4. Roedd pum ymatebydd (18%) yn anghytuno â'r egwyddorion arweiniol ar gyfer penodi aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. O blith y rhain, ni wnaeth ddau ymatebydd unrhyw sylw pellach. Dywedodd un ymatebydd dienw ei fod yn awyddus i'r aelodau: *“...gael eu hethol yn ddemocrataidd a chynnwys croestoriad GO IAWN o boblogaeth Cymru”*. Dywedodd ymatebydd dienw arall: *“...dylai cyfreithwyr iechedd meddwl sydd wedi'u hachredu gan Gymdeithas y Cyfreithwyr gael y dewis cyntaf gan fod ganddynt brofiad helaeth o gyfraith iechedd meddwl”*, ac, yn olaf, dywedodd y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru, na ddylai Llywodraeth Cymru wneud penodiadau ar ei phen ei hun, gan argymhell bod yr Arglwyddes Brif Ustus, fel parti gwleidyddol niwtral, yn cael ei chynnwys i sicrhau bod y cyfraddau cyflog yr un fath â'r rhai yn Lloegr a'r awdurdodaethau Cymreig nad ydynt wedi'u datganoli.
- 7.5. O blith yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, doedd gan 15 ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Y trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi

### Cwestiwn 27

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer awdurdod penodi aelodau'r tribiwnlysoedd newydd:

- a. ac eithrio Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Siambrau, bydd aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn cael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru
- b. bydd Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac aelodau o Dribiwnlys Apêl Cymru yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chydysyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

- 7.6. O blith yr 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 23 (82%) yn cytuno â rhan a. o'r cynnig ar gyfer yr awdurdod penodi ar gyfer aelodau'r tribiwnlysoedd newydd.
- 7.7. Roedd 20 o'r ymatebwyr hyn (71%) yn cytuno â rhan b. hefyd. Dywedodd un ymatebydd y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru benodi Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac aelodau o Dribiwnlys Apêl Cymru. Dywedodd ymatebydd arall y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru benodi Llywyddion Siambrau.
- 7.8. Cafodd nifer o argymhellion eu gwneud gan yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig, gan gynnwys:
  - dylid creu cronfa ddethol ranbarthol;
  - dylai canllawiau clir a chyson a system enwebu ategu'r Llywydd fel awdurdod penodi;
  - dylai aelodau o dribiwnlysoedd fod yn gyfartal â chyd-weithwyr yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Lloegr at ddibenion trawsdocynnu y ddwy ffordd;
  - dylai'r Cwnsler Cyffredinol fod yn rhan o'r broses: "...naill ai ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru neu yn eu lle (yr ail fyddai orau)" (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).
- 7.9. Cyfeiriodd y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru, at y broses penodi a dethol i nodi ymgeiswyr ar gyfer penodi, gan ddweud: "*Mae angen sefydlu corff Penodiadau Barnwrol annibynnol i Gymru, gan ddechrau gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.*" Dywedodd ymatebydd arall y dylai penodeion gael eu hethol.
- 7.10. Roedd pum ymatebydd (18%) yn anghytuno â'r cynnig.
- 7.11. Doedd gan 15 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Meini prawf ar gyfer penodi

### Cwestiwn 28

Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Gweinidogion Cymru, wrth wneud penodiadau i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru, roi sylw i'r angen i hybu amrywiaeth yn yr ystod o unigolion a benodir?

- 7.12. O blith y 32 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 28 (88%) yn cytuno y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Gweinidogion Cymru, wrth wneud penodiadau i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru, roi sylw i'r angen i hybu amrywiaeth yn yr ystod o unigolion a benodir.
- 7.13. Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ychwanegol:
- Dylid cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac asesiad o'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn ofynnol ar gyfer pob penodiad (Dienw).
  - *"Mae penodiadau gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol eisoes yn destun asesiad o amrywiaeth, a dylid ystyried hyn ochr yn ochr ag unrhyw ofynion gan y Llywydd a Gweinidogion Cymru i osgoi gwahaniaethau."* (Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru).
  - Roedd nifer o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor eisoes yn awyddus i bwysleisio y dylai penderfyniadau penodi fod yn seiliedig ar deilyngdod yn y pen draw. Dywedodd y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru: *"Mae amrywiaeth yn bwysig. Dylai'r broses penodi bob amser fynd ar drywydd yr ymgeiswyr mwyaf cymwys sydd wedyn yn cael eu hyfforddi'n briodol ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, gwahaniaethu a rhagfarn."*
- 7.14. Roedd pedwar ymatebydd (12%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Dywedodd trydydd ymatebydd, dienw, y dylid penodi: *"... y person gorau ar gyfer y swydd"*. Dywedodd y pedwerydd ymatebydd, sydd hefyd yn ddienw: *"Rwy'n credu y dylai cyfreithwyr iechyd meddwl sydd wedi'u hachredu gan Gymdeithas y Cyfreithwyr gael y dewis cyntaf gan fod ganddynt brofiad helaeth o gyfraith iechyd meddwl."*
- 7.15. Doedd gan 11 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Cwestiwn 29

Ydych chi'n cytuno y dylai'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodi i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru alluogi'r gronfa o ymgeiswyr sy'n gymwys i gael eu penodi i fod mor eang â phosibl?

- 7.16. O blith y 32 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 24 (75%) yn cytuno y dylai'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodi i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru alluogi'r gronfa o ymgeiswyr sy'n gymwys i gael eu penodi i fod mor eang â phosibl.
- 7.17. Cafodd y sylwadau ychwanegol canlynol eu gwneud gan ymatebwyr eraill a oedd yn cytuno:
- *“Os yw'n briodol agor penodiad i Swyddogion Cyfreithiol Siartredig, er enghraifft, ni ddylid eu heithrio.”* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).
  - Dylai penodeion feddu ar y *“wybodaeth a'r profiad perthnasol”* (Dienw).
  - *“I sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran profiad ar ôl cymhwyso, gellid cynnwys y geiriau “... neu gyfatebol”, a fyddai'n cynnwys (ee) academyddion a chyfreithwyr mewnol na fyddai'n cael eu cynnwys fel arall o bosibl.”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
- 7.18. Roedd tri ymatebydd (9%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach a chyfeiriodd y trydydd ymatebydd dienw yn benodol at benodi cyfreithwyr ieched meddwl mewn cysylltiad â chyfraith ieched meddwl.
- 7.19. Nid oedd pum ymatebydd (16%) yn cytuno nac anghytuno'n uniongyrchol, ond roeddent wedi tynnu sylw at feysydd penodol a oedd yn arwyddocaol yn eu barn nhw, gan gynnwys:
- cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg;
  - cael yr un meini prawf ag awdurdodaethau cymharol i sicrhau nad yw trawsdocynnu'n cael ei beryglu;
  - adolygiad brys o'r meini prawf cyfredol i'w gwneud hi'n bosibl *“...penodi'r rhai sydd â chymwysterau addas ond sy'n dod o gefndir annodweddiadol.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
- 7.20. Doedd gan 11 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Telerau ac amodau penodi

### Cwestiwn 30

Ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru osod telerau ac amodau penodi ar gyfer aelodau o'r gwasanaeth tribiwnlysoedd newydd?

- 7.21. O blith yr 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 19 (68%) yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru osod telerau ac amodau penodi ar gyfer aelodau o'r gwasanaeth tribiwnlysoedd newydd.
- 7.22. Cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud gan ymatebwyr a oedd yn cytuno:
- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd telerau ac amodau gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a ddywedodd: "...*mae'n bwysig bod telerau ac amodau aelodau o dribiwnlysoedd yn cael eu cymedroli o leiaf, er mwyn sicrhau (ee) nad yw aelod yn ffafrio un awdurdodaeth dros un arall ar sail tâl a thelerau ac amodau yn unig.*"
  - Fel rhan o'r telerau ac amodau, "...*dylai hyfforddiant blynyddol ac arfarniadau bob tair blynedd fod yn ofynnol.*" (Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru).
  - Dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddylanwadu ar y broses.
- 7.23. Nid oedd pum ymatebydd (18%) yn cytuno nac anghytuno'n uniongyrchol, ond roeddent wedi tynnu sylw at feysydd penodol a oedd yn arwyddocaol yn eu barn nhw, gan gynnwys:
- Dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a dylai defnyddwyr blaenorol gyfrannu at grwpiau llywio.
  - Glynodd Panel Dyfarnu Cymru wrth safiad niwtral, ond cwestiynodd a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: "...*gael rôl, neu a ddylid ymgynghori ag ef, ynghylch telerau ac amodau.*"
  - "*Dylai telerau ac amodau penodiadau fod yr un fath ag awdurdodaethau cymharol i gynnal gallu aelodau i drawsdocynnu.*" (Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru).
- 7.24. Roedd pedwar ymatebydd (14%) yn anghytuno â'r cynnig. Gwnaeth un o'r rhain sylwadau ychwanegol: "Mae angen i dâl ac amodau adlewyrchu tâl ac amodau llysoedd a thribiwnlysoedd heb eu datganoli. *Mae angen comisiwn i wneud penodiadau barnwrol heb unrhyw bosibilrwydd o ddylanwadu gwleidyddol neu gan Lywodraeth Cymru.*" (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).

- 7.25. Doedd gan 15 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### Neilltuo

#### Cwestiwn 31

Ydych chi'n cytuno y dylid parhau â system o drawsneilltuo ar gyfer aelodau barnwrol, cyfreithiol a chyffredinol yn y system dribiwnlysoedd newydd?

- 7.26. O blith y 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 24 (83%) yn cytuno y dylid parhau â system o drawsneilltuo ar gyfer aelodau barnwrol, cyfreithiol a chyffredinol yn y system dribiwnlysoedd newydd.
- 7.27. Roedd manteision y dull hwn a amlinellwyd gan yr ymatebwyr hyn yn cynnwys: cynyddu'r apêl o fod yn aelod o dribiwnlys; cyfle i aelodau ehangu eu profiadau; a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Dywedwyd hefyd y dylai trawsneilltuo: "*gael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion priodol yn dal ar waith ym mhob awdurdodaeth.*" (CDA Cymru).
- 7.28. Roedd pum ymatebydd (17%) yn anghytuno â pharhau â'r dull hwn. Ni wnaeth dri o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach, ond mynegodd dau ymatebydd bryderon ynglŷn â diffyg annibyniaeth o bosibl a'r angen i unigolion feddu ar y sgiliau gofynnol ym mhob maes.
- 7.29. Doedd gan 14 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### Penodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

#### Cwestiwn 32

Ydych chi'n meddwl y dylai'r prosesau penodi ar gyfer Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru newid mewn unrhyw ffordd fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y Papur Gwyn?

- 7.30. O blith y 26 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 13 (50%) yn cytuno y dylai'r prosesau penodi ar gyfer Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru newid fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig a nodir yn y Papur Gwyn.
- 7.31. Dyma safbwyntiau rhai o'r ymatebwyr hyn:
- "*...am y rhesymau a nodwyd yn y Papur Gwyn, nid oes gan yr Arglwydd Ganghellor unrhyw fuddiant dilys yn y penodiad. Os nad drwy Warant Frenhinol, dylai'r penodiad gael ei wneud gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Brif Ustus, fel y cynigir yn y Papur Gwyn.*" (Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).

- *“Os yw Cymru’n bwriadu cael system farnwrol ar wahân, byddai cael yr Arglwydd Ganghellor i benodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gam am yn ôl lle mae cyfle i sicrhau newid nawr. Mae angen comisiwn annibynnol i argymhell penodiadau barnwrol heb unrhyw bosibilrwydd o ddylanwadu gwleidyddol neu gan Lywodraeth Cymru. Wedyn dylai’r Arglwyddes Brif Ustus wneud y penodiad.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
  - *“Mae Panel Dyfarnu Cymru’n cytuno â’r Papur Gwyn – ni ddylai’r Arglwydd Ganghellor benodi unrhyw farnwr mewn awdurdodaeth ddatganoledig.”* (Y Barnwr Claire Sharp, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru).
  - *“Dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei benodi gan Weinidogion Cymru, a dylai Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr fod yn ymgynghorai yn y broses.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
  - Cymheiriaid dylai wneud y penodiad, nid y llywodraeth.
- 7.32. Roedd saith ymatebydd (27%) yn anghytuno â’r cynnig y dylai’r prosesau penodi ar gyfer Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru newid mewn unrhyw ffordd. Dywedodd un o’r ymatebwyr hyn: *“Does dim angen newid ar hyn o bryd. Pe bai’r system gyfreithiol gyfan yng Nghymru yn cael ei datganoli ymhellach mewn amser, dyna fyddai’r amser i newid y rheolau hynny.”* (Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru).
- 7.33. Nid oedd pedwar ymatebydd (15%) yn cytuno nac anghytuno’n uniongyrchol â’r cwestiwn. Dyma sylwadau dau ohonynt:
- *“Dylai penodiadau barhau i fod yn gydradd ag uwch farnwyr eraill i sicrhau hygredded y farnwriaeth.”* (Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru).
  - *“Rydym yn credu y dylid adolygu’r broses yn rheolaidd.”* (Awdurdod Lleol Bro Morgannwg).
- 7.34. Dywedodd dau ymatebydd (8%) eu bod yn ansicr.
- 7.35. Doedd gan 17 o’r ymatebwyr i gwestiynau’r ymgynghoriad ddim sylw i’w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.



## 8. Cwynion a disgyblu

### Cwynion am aelodau tribiwnlysoedd

#### Cwestiwn 33

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer rheoli cwynion a gwneud penderfyniadau disgyblu ynghylch aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru?

- 8.1. O blith yr 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 23 (82%) yn cytuno â'n cynigion ar gyfer rheoli cwynion a gwneud penderfyniadau disgyblu ynghylch aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.
- 8.2. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen bod yn unffurf ar draws yr awdurdodaethau. Cafwyd rhai argymhellion ynghylch y dull gweithredu hefyd:
- *“Ar gyfer Barnwyr Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, dylai Llywydd y Siambr berthnasol bennu a oes unrhyw gŵyn am ymddygiad wedi'i gwneud; ac os oes, gyda chymeradwyaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, dylai benodi rhywun i ymchwilio. Gall yr unigolyn hwnnw fod yn farnwr neu'n farnwr sydd wedi ymddeol: ac yn aml bydd yn Llywydd siambr arall... rwy'n cytuno â'r cynigion o ran diswyddo.”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
  - Roedd yr ymatebydd hwn yn cytuno'n rhannol: *“Bydd angen ystyried ymhellach sut mae delio â chwynion yn erbyn aelod sydd wedi'i drawsneilltuo, hy a yw Llywydd y Siambr yn ymchwilio i gŵyn am un o'i aelodau os yw'r gŵyn am ymddygiad wedi codi pan oedd yr aelod hwnnw'n eistedd fel aelod mewn siambr wahanol. Ar ôl cael adroddiad ac argymhellion ymchwilydd, mae'n briodol mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru sy'n gyfrifol am ddisgyblu a/neu ddiswyddo'r aelod hwnnw, a bod angen i Weinidogion Cymru gytuno i ddiswyddo Llywyddion neu Ddirprwy Lywyddion Siambrau. Ar gyfer Tribiwnlys Apêl Cymru, ystyrir nad oes rheswm pam na ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gynnal yr ymchwiliad a gwneud argymhellion ynghylch disgyblu/diswyddo'r aelod hwnnw, ac mai Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu ar gamau gweithredu pellach.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
- 8.3. Roedd tri ymatebydd (11%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Mynegodd Cyngor y Bar bryder: *“nad yw'r cynigion ar gyfer diswyddo aelodau o'r tribiwnlys yn ddigonol i ddiogelu annibyniaeth aelodau yn briodol”* a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys: *“dylai aelodau o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, sef y prif ganfyddwyr ffeithiau, elwa ar yr un diogelwch i'w hannibyniaeth ag aelodau o'r tribiwnlys apeliadol”*, ni ddylai'r penderfyniad i ddiswyddo gael ei wneud gan un person, ac *“yn achos anghytundeb rhwng y Prif Weinidog a'r Llywydd, byddai caniatáu i farn y Prif Weinidog fod drechaf yn cynyddu'r risg o gymhelliant gwleidyddol yn amharu ar ddiswyddiadau”*.

- 8.4. Nid oedd dau ymatebydd (7%) yn cytuno nac anghytuno'n uniongyrchol â'r cwestiwn, gan nodi bod angen proses gadarn/syml.
- 8.5. Doedd gan 15 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Cwestiwn 34**

Ydych chi'n cytuno â'r rôl ymchwilio arfaethedig i gorff neu unigolyn annibynnol? Pwy ddylai'r corff neu'r unigolyn fod yn eich barn chi?

- 8.6. O blith y 28 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 23 (82%) yn cytuno â'r rôl ymchwilio arfaethedig i gorff neu unigolyn annibynnol.
- 8.7. Cafodd nifer o awgrymiadau eu gwneud gan yr ymatebwyr hyn o ran pwy ddylai'r corff neu'r unigolyn annibynnol hwnnw fod, gan gynnwys:
- Ombwdsmon, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (tri ymatebydd).
  - Y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol (saith ymatebydd).
  - Unigolyn neu gorff sydd: wedi cael ei benodi'n ddemocrataidd/ei benodi ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus/ei benodi gan undebau llafur cyfiawnder (tri ymatebydd).
  - Endid sy'n benodol i Gymru (dau ymatebydd).
- 8.8. Roedd tri ymatebydd (11%) yn anghytuno â'r rôl ymchwilio arfaethedig i gorff neu unigolyn annibynnol. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Ailadroddodd y trydydd ymatebydd ei ymateb i'r cwestiwn blaenorol, sef: "...*gallai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyflawni'r rôl ymchwilio a gwneud argymhellion ynghylch camau disgyblu ar gyfer aelodau o Dribiwnlys Apêl Cymru. Wedyn byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bennu'r cam disgyblu priodol.*" (Tribiwnlys Prisiau Cymru).
- 8.9. Dywedodd dau ymatebydd (7%) eu bod yn ansicr.
- 8.10. Doedd gan 15 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Cwynion am weinyddiaeth y system dribiwnlysoedd newydd

### Cwestiwn 35

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer rheoli cwynion am weinyddiaeth y system dribiwnlysoedd newydd?

- 8.11. O blith y 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 25 (86%) yn cytuno â'n cynigion ar gyfer rheoli cwynion am weinyddiaeth y system dribiwnlysoedd newydd.
- 8.12. Dywedodd dau o'r ymatebwyr hyn yn benodol eu bod yn cytuno â'r cynigion yn y Papur Gwyn i Dribiwnlysoedd Cymru berthyn i awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau i ddarparu'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru. Hefyd, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: *“Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y Papur Gwyn y byddai'n briodol i'n swyddfa ni ddelio â chwynion am weinyddiaeth y system dribiwnlysoedd newydd. Felly, byddem yn disgwyl gweithio gyda'r corff newydd yn ein rôl fel Awdurdod Safonau Cwynion Cymru i sicrhau ei fod yn mabwysiadu ein polisi a'n gweithdrefn cwynion enghreifftiol. Fodd bynnag, dymunwn bwysleisio y byddai'n fuddiol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol egluro'r effaith ddisgwyliedig ar ein niferoedd cwynion yn dilyn y newid awdurdodaethol hwn. Hyd yn oed pe bai'r effaith yn cael ei hystyried yn fach iawn, credwn y dylai'r Asesiad roi sicrwydd bod yr effaith wedi cael ei hystyried.”*
- 8.13. Roedd tri ymatebydd (10%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Ailadroddodd y trydydd ymatebydd ei farn, sef: *“gallai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyflawni'r rôl ymchwilio a gwneud argymhellion ynghylch camau disgyblu ar gyfer aelodau o Dribiwnlys Apêl Cymru. Wedyn byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bennu'r cam disgyblu priodol.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
- 8.14. Nid oedd un ymatebydd dienw yn cytuno nac anghytuno'n uniongyrchol â'r cwestiwn, gan awgrymu y dylai'r gwaith o reoli cwynion gael ei *“gadw'n syml”*.
- 8.15. Doedd gan 14 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## 9. Rheolau Gweithdrefnol

### Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru

#### Cwestiwn 36

Ydych chi'n cytuno y dylid creu pwyllgor statudol sy'n gyfrifol am ddatblygu Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, fel y nodir ym mharagraffau 173-177 [y Papur Gwyn]?

- 9.1. O blith y 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 25 (83%) yn cytuno â'r cynnig i greu pwyllgor statudol sy'n gyfrifol am ddatblygu Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd.
- 9.2. Codwyd rhai problemau gan nifer isel o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig:
- *“Er fy mod yn cytuno y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn Gadeirydd ar Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, mae'n debygol y bydd ad-drefnu rheolau gweithdrefnol yr amrywiol awdurdodaethau (fel y rhag-welir yn y Papur Gwyn: gweler paragraffau 186-191) yn cymryd amser sylweddol ym mlynnyddoedd cyntaf y tribiwnlysoedd newydd. Fodd bynnag, os bydd angen, gellid gwneud hynny gyda chymorth dirprwyaeth (sydd eisoes wedi'i nodi yng nghynigion y Papur Gwyn).”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
  - *“Hefyd, rhaid i'r pwyllgor feddu ar adnoddau digonol (gan gynnwys ysgrifenyddiaeth sydd ar gael yn arbennig i'r pwyllgor). Cynigir peidio â chynnig tâl i aelodau o'r pwyllgor. Dydy hynny ddim yn ymddangos yn iawn. Mae'n eithrio (ac o bosibl yn gwahaniaethu) – mae'n cyfyngu ar y gronfa o ddarpar ymgeiswyr.”* (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).
- 9.3. Roedd pum ymatebydd (17%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Dyma sylwadau'r tri ymatebydd arall:
- Dywedodd y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ei bod yn credu bod y cynnig: *“...yn ffordd orgymhleth o ddiweddarau rheolau gweithdrefnol. Yn ymarferol, byddai'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd dim ond yn delio â'r ddarpariaeth o gyflwyno dogfennau a rheolau gwrandawiadau o bell (paragraff 189 (c) ac (e)). Mae'r materion sy'n weddill (paragraff 189 (a), (b) a (d)) yn dal yn gymharol sefydlog.”*
  - *“Rydym yn credu y byddai pwyllgor rheolau o tua 9-12 aelod, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sydd angen cryn dipyn o gymorth gweinyddol yn rhy feichus a biwrocraidd. Dylai'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd wneud y rheolau gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru ac ar ôl ymgynghori â Llywyddion Siabrau ac unigolion priodol*

*eraill...*” (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).

- 9.4. Doedd gan 13 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### **Pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol**

#### **Cwestiwn 37**

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i arfer y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd?

- 9.5. O blith y 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 26 (87%) yn cytuno â'r cynnig i arfer y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd.
- 9.6. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr hyn sylw at bwytiau penodol hefyd:
- Dywedodd y Barnwr Claire Sharp, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru: *“Ni ddylid gosod rheolau ar Dribiwnlys os rhoddir fetó arnynt gan ei arweinydd barnwrol, sydd yn y sefyllfa orau i ystyried anghenion ei dribiwnlys. Mae'r Rheolau'n debygol o orfod delio dim ond â materion cyffredinol iawn, gan fod y tribiwnlysoedd yn wahanol iawn...”*
  - Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru: *“Dylai Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y tribiwnlysoedd datganoledig gael eu gwneud gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ar ffurf y cytunir arni gan fwyafrif o Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, ac yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Dylai darpariaeth statudol ar gyfer y weithdrefn hon fod yn ddigon heb fod angen gwreiddio'r rheolau mewn offeryn statudol, a fydd yn gwneud dim mwy nag oedi'r broses o weithredu a newid y rheolau hyn...”*
  - *“...os na fydd aelodau o'r pwyllgor yn cael cyflog, dylent gael ffi pro-rata am eu hamser a chael eu talu am eu treuliau.”* (Y Barnwr Richard Payne, Llywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl).
- 9.7. Roedd pedwar ymatebydd (13%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Ailadroddodd y ddau ymatebydd arall eu hymatebion i'r cwestiwn blaenorol, sydd wedi'u cofnodi o dan Gwestiwn 36.
- 9.8. Doedd gan 13 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## Safoni rheolau gweithdrefnau

### Cwestiwn 38

Ydych chi'n cytuno y dylai'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ddatblygu rheolau gweithdrefnol cyffredin ar draws y system dribiwnlysoedd newydd, gan gydnabod a darparu ar gyfer nodweddion unigryw pob awdurdodaeth?

- 9.9. O blith y 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 26 (87%) yn cytuno y dylai'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ddatblygu rheolau gweithdrefnol cyffredin ar draws y system dribiwnlysoedd newydd, gan gydnabod a darparu ar gyfer nodweddion unigryw pob awdurdodaeth.
- 9.10. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr hyn sylw at y pwyntiau canlynol hefyd:
- *“Byddai'n ddefnyddiol cael darpariaeth ar gyfer gwneud rhai penderfyniadau sylfaenol ynghylch rheoli achosion yn weinyddol heb fod angen gwneud cais ffurfiol neu atgyfeirio at Farnwr.”* (Cyngor Sir y Fflint).
  - *Dylai siambrau y mae awdurdodaethau'n cael eu trefnu iddynt gael rheolau pwrpasol sy'n cydnabod nodweddion ac anghenion unigryw eu hawdurdodaethau.”* (Tribiwnlys Prisio Cymru).
  - *“...bydd angen cymryd gofal yn hyn o beth i sicrhau bod y Tribiwnlysoedd presennol yn dal yn gallu gweithredu a rheoli achosion yn effeithiol.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
- 9.11. Roedd pedwar ymatebydd (13%) yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth ddau o'r ymatebwyr hyn unrhyw sylw pellach. Ailadroddodd y ddau ymatebydd arall eu hymatebion i gwestiwn blaenorol, sydd wedi'u cofnodi o dan Gwestiwn 36.
- 9.12. Doedd gan 13 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

### Cwestiwn 39

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru gynnwys y materion canlynol:

- a. prif amcan
- b. dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd ac â'r tribiwnlys
- c. darparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig
- d. pŵer i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf adolygu ei benderfyniadau ei hun
- e. rheolau ar wrandawiadau o bell.

- 9.13. O blith yr 31 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 27 (87%) yn cytuno â'n cynnig y dylai Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru gynnwys pob un neu rai o'r materion a restrwyd.
- 9.14. Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig wedi gwneud argymhellion penodol neu wedi codi pryderon penodol:
- *“O ran y rheolau ynghylch cyflwyno dogfennau'n electronig a gwrandawiadau o bell, mae'n bwysig bod defnyddwyr tribiwnlysoedd nad ydynt yn gallu neu'n penderfynu peidio â chymryd rhan yn ddigidol yn dal yn gallu defnyddio ffyrdd eraill o gael mynediad at y system gyfiawnder; dylai'r ffyrdd eraill hyn fod cystal â'r rhai sydd ar gael ar-lein.”* (Tribiwnlys Priso Cymru). Ategwyd y safbwynt hwn gan ymatebwyr eraill.
  - *“...dylid cyfyngu ar y seiliau ar gyfer mynd ar drywydd adolygiad, yn y ffordd arferol erbyn hyn, i amgylchiadau lle na fyddai unrhyw dribiwnlys wedi gallu gwneud y penderfyniad ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, bod tystiolaeth newydd, berthnasol ar gael, neu fod gwall gweithdrefnol perthnasol difrifol wedi digwydd.”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
  - *“Rhagwelir y gallai dyletswydd i gydweithredu (o bosibl) achosi tensiwn â dyletswydd arall (ee bydd gan gyfreithiwr ddyletswydd broffesiynol i'w gleient). Gellid fframio dyletswydd i gydweithredu mewn ffordd sy'n ystyried dyletswyddau eraill.”* (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).
  - *“Rydym yn credu, fodd bynnag, y dylai'r Tribiwnlys gael pŵer, ar ei gynnig ei hun (ar ôl rhoi cyfle i bartïon wneud sylwadau), i gywiro gwallau amlwg sy'n dod i'w sylw. Rydym yn credu y dylai'r Rheolau gynnwys amcan penodol i drin y ddwy iaith yn gyfartal.”* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).

- *“Rydym yn credu y dylent hefyd gynnwys datganiad o egwyddorion cyfiawnder gweinyddol i ddarparu cyd-destun i'r rheolau.”* (Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru).
- *“O ran Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn cael y pŵer i adolygu ei benderfyniadau ei hun, rydym yn nodi, o safbwynt datrys anghydfodau yn gymesur, er y gallai hyn arwain at gywiro gwallau yn gynnar, yn gyflym ac o fewn y system dribiwnlysoedd, ei fod hefyd yn ychwanegu haen ychwanegol o adolygiad gyda'r potensial i greu llwythi gwaith beichus a rhywfaint o 'gyfreitha lloeren' o ran amodau ei argaeledd.”* (Canolfan Datrys Anghydfodau Cymru – Aelodau sy'n Ymarferwyr ac Aelodau Academaidd yn unig).

9.15. Roedd dau ymatebydd (6.5%) yn anghytuno â'r cynnig ac ni wnaethant unrhyw sylw pellach.

9.16. Nid oedd dau ymatebydd (6.5%) yn cytuno nac anghytuno'n uniongyrchol â'r cwestiwn, ond gwnaethant y pwyntiau canlynol:

- Tynnodd Cymdeithas Archifau a Chofnodion y DU ac Iwerddon sylw at yr angen i gyhoeddi gwybodaeth a'i gwneud yn hygyrch, gyda threfniadau cadarn ar gyfer cadw cofnodion a diogelu cofnodion o werth hanesyddol.
- Parhad gwrandawiadau o bell (Dienw).

9.17. Doedd gan 12 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.



## 10. Dod â chyfiawnder yn nes at bobl Cymru

### Cryfhau'r system gyfiawnder o dan y setliad cyfansoddiadol presennol

#### Cwestiwn 40

Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i adolygu gweithrediad cyfiawnder sifil a gweinyddol yng Nghymru? Os felly, sut dylid gwneud hyn?

- 10.1. O blith y 29 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 25 (86%) yn cytuno y dylid parhau i adolygu gweithrediad cyfiawnder sifil a gweinyddol yng Nghymru.
- 10.2. O ran sut dylid gwneud hyn, cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud gan yr ymatebwyr hyn:
  - Roedd nifer o ymatebwyr wedi argymhell monitro rheolaidd ar adegau penodol, ac adrodd rheolaidd.
  - Cafodd Cyngor Cyfraith Cymru ei argymhell gan rai ymatebwyr, ac roedd eraill yn credu bod angen ystyried y fforwm gorau ymhellach.
  - Cafodd corff annibynnol ei argymhell gan nifer o ymatebwyr, fel "...y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru gynt" (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru), neu "... Pwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd neu'r Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru" (Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd, Cymru).
  - Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: "...byddai'n fuddiol heb os sicrhau bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ein swyddfa, ac unrhyw randdeiliaid eraill sy'n rhan o'r gwaith o sicrhau cyfiawnder gweinyddol yn cyfathrebu'n rheolaidd i werthuso'n barhaus sut mae'r system yn cyflawni dros bobl Cymru."
  - "Rydym yn cytuno â dull comisiwn Thomas cyhyd â bod sicrwydd o ansawdd y rhai sy'n darparu gwasanaeth cyfaill achos, cyfryngu a datrys anghydfodau, a'u bod yn cael eu hariannu'n ddigonol i gyflawni gwaith achos sy'n aml yn gallu bod yn gymhleth ac yn hir." (SNAP Cymru).
- 10.3. Nid oedd dau ymatebydd (7%) yn cytuno nac anghytuno'n uniongyrchol â'r cwestiwn. Dywedodd un y dylid cynnwys defnyddwyr. Dywedodd yr ymatebydd arall (Canolfan Datrys Anghydfodau Cymru – Aelodau sy'n Ymarferwyr ac Aelodau Academaidd yn unig) fod ganddi rôl uniongyrchol i'w chwarae yn y broses adolygu: "Er ei bod yn endid annibynnol, mae CDA Cymru'n cael ei hysbrydoli a'i chefnogi gan Gyngor Cyfraith Cymru, sydd wedi bod yn hollbwysig yn cynnull grŵp o ymarferwyr datrys anghydfodau blaenllaw gyda diddordeb arbennig mewn hybu'r gwaith o ddatrys anghydfodau yn y cyd-destun Cymreig. Mae CDA Cymru wedi'i harwain gan Fwrdd rhyngdisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr datrys anghydfodau proffesiynol o faes y gyfraith, y byd academaidd,

*llywodraethau, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector cyfreithiol, a barnwriaeth Cymru. Mae CDA Cymru'n cyflawni ei gweithgareddau o dan dair thema graidd: hybu, addysg, ac ymchwil; cydlynu; a goruchwyliaeth."*

- 10.4. Roedd dau ymatebydd (7%) yn anghytuno â'r cynnig, gan nodi blaenoriaethau eraill yng Nghymru ar yr adeg hon sy'n drech na datganoli cyfiawnder, fel y GIG, trafnidiaeth a seilwaith.
- 10.5. Doedd gan 14 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## 11. Y Gymraeg

### Effaith y diwygiadau arfaethedig ar y Gymraeg

#### Cwestiwn 41

Hoffem gael eich safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai ein diwygiadau arfaethedig i dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru er mwyn creu un system dribiwnlysoedd unedig a chydlynol, sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru, yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol:

- i. ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac
- ii. ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

11.1. O blith y 27 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, soniodd 10 (37%) am yr effeithiau cadarnhaol y byddai ein diwygiadau arfaethedig i dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru er mwyn creu un system dribiwnlysoedd unedig a chydlynol, sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru, yn eu cael ar y Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y byddai'r diwygiadau yn arwain at y manteision canlynol:

- Rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Dywedodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, "*Mae creu system apêl yng Nghymru ar gyfer yr haen gyntaf yn gam positif ac yn rhoi arwyddion cadarnhaol i siaradwyr Cymraeg bod modd defnyddio'r iaith trwy'r system dribiwnlys. Mae profiad y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd o geisio rhestru achosion adolygiadau barnwrol neu o'r llys apêl yng Nghymru pan fo gwraidd yr achos yn gysylltiedig gyda'r iaith neu Gymru yn dangos y pwysigrwydd o gadw trefniadau fel hyn o fewn ffiniau Cymru.*"
- Roedd Sefydliad Siartredig yr Ieithyddion a'r Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd yn croesawu'r diwygiadau, gan ddweud: "*Dylid croesawu unrhyw beth sy'n cynnal ac yn gwreiddio dwyieithrwydd, ac yn wir amlieithrwydd, ymhellach, o ystyried gwerth diwylliannol cynhenid ieithoedd a'u defnydd ym mhob math o gyd-destunau gwaith a bywyd. Mae Llywodraeth Cymru'n haeddu pob clod am ei chefnogaeth arloesol ac effeithiol i wasanaethau Cymraeg.*" Hefyd, pwysleisiwyd yr angen i gefnogi siaradwyr ieithoedd eraill nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg yn ddigon cymwys.

11.2. Er mwyn sicrhau'r manteision hyn, roedd rhai o'r ymatebwyr hyn wedi codi pwysigrwydd recriwtio aelodau sy'n siarad Cymraeg ac sy'n meddu ar y profiad a'r arbenigedd perthnasol, a thrawsdocynnu aelodau sy'n siarad Cymraeg ar draws awdurdodaethau eraill lle bo hynny'n bosibl.

- 11.3. Nid oedd tri ymatebydd (11%) yn credu y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn gwneud gwahaniaeth o ran y Gymraeg. Dyma'r rhesymau a roddwyd:
- *"...mae'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg eisoes yn cael ei hybu yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ac nid oes awgrym bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg."* (Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru).
  - *"Yn Nhribiwnlys Addysg Cymru, mae cyfle llawn i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cam o'r broses wedi bodoli erioed, ac mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael yr un flaenoriaeth. Anaml iawn mae defnyddwyr y Tribiwnlys yn gofyn am gael cynnal yr achos yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Gymraeg ar gael a nodir ei fod ar gael i gefnogi dewis apelydd neu hawlydd."* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
- 11.4. Rhannodd dau ymatebydd eu safbwyntiau ar rai o'r effeithiau negyddol y gallai'r diwygiadau arfaethedig eu hachosi:
- *"... nid yw pob gweithiwr yn siarad Cymraeg yn rhugl. Ychydig iawn o Gwnsleriaid ADY Cymraeg sydd. Mae gwahaniaethau rhwng Cymraeg y Gogledd a Chymraeg y De. Hefyd, byddai hyn yn cyfyngu ar uwch swyddi barnwrol. A fyddai gwneud y Gymraeg yn hanfodol yn oedi materion/rhestru? Dylai / byddai angen i wasanaethau cyfieithu ar y pryd fod ar gael."* (Dienw).
  - Dywedodd ymatebydd a oedd yn dymuno bod yn ddiennw y byddai effeithiau negyddol oni bai fod newidiadau'n cael eu gwneud i Reoliadau Safonau'r Gymraeg sydd eisoes wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru. Y rheswm a roddwyd ar gyfer yr effeithiau negyddol hyn yw nad yw'r safonau gweithredu a restrir yn Rheoliadau Rhif 4 yn berthnasol ar hyn o bryd i nifer o'r tribiwnlysoedd a restrir yn y strwythur arfaethedig.
- 11.5. Nid oedd 11 o ymatebwyr (41%) wedi rhannu eu safbwynt ar yr effeithiau yn uniongyrchol, ond gwnaethant y pwyntiau canlynol:
- *"Dylai pob dogfen a gwrandawriad tribiwnlys fod ar gael yn yr iaith sy'n cael ei ffafrio."* (Cyngor Sir Ceredigion).
  - Dywedodd Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd: *"Yn ogystal â chydarddoldeb rhwng ieithoedd, mae'r pwnc yn codi: ...Materion rheolaeth y gyfraith (ee mynediad at gyfiawnder). ...Materion hawliau dynol (erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (rhyddid mynegiant) ac erthygl 14 y Confensiwn (gwahardd gwahaniaethu wrth fwynhau hawliau'r Confensiwn). ...Rwy'n tybio y bydd ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg. Nid oes rheswm pam na ddylai system dribiwnlysoedd Cymru groesawu'r Gymraeg. Mae cael gafael ar adnoddau yn hollbwysig."*

- *“Bydd darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ynghylch statws cyfartal Cymraeg a Saesneg yn llysoedd a thriwlynlysoedd Cymru yn berthnasol.”* (Cyngor y Bar).
- Rhannodd tri ymatebydd eu safbwyntiau ynghylch pam nad oeddent yn credu y dylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y rhesymau'n cynnwys pryderon ynglŷn â'r gost a'r prinder o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.
- *“Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru eisoes yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael ac yn cael eu hybu'n glir ar hyn o bryd.”* (Y Barnwr Richard Payne, Llywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl).
- *“Wrth lunio rheolau sy'n sicrhau statws yr iaith ac gwneud yn siwr fod aelodaeth y triwlynlysoedd yn adlewyrchu'r gwahanol ardaloedd o fewn Cymru.... Fe ddylid penderfyni achosion Cymraeg yng Nghymru, pryd bynnag fo'n bosib.”* (Dienw)

11.6. Mae Adran 13 (Ymatebion y tu allan i gwestiynau'r ymgynghoriad) yn cofnodi sylwadau a wnaed mewn llythyr gan Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, ac mewn e-bost gan y Barnwr Iwan Jenkins, Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg.

11.7. Doedd gan 16 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

#### **Cwestiwn 42**

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y diwygiadau arfaethedig er mwyn cael:

- i. effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii. dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

11.8. Cafwyd 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

11.9. Dyma safbwyntiau rhai o'r ymatebwyr hyn:

- Yr angen am wasanaethau cyfieithu a staff dwyieithog digonol i alluogi triwlynlysoedd i weithredu'n effeithiol yn Gymraeg.

- *“Dylid sicrhau bod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn cael eu diwygio neu eu creu o'r newydd gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw gorff newydd a sefydlir yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.”* (Dienw)
- *“Fel rhan o'ch System Dribiwnlysoedd Newydd yng Nghymru, byddem yn eich annog yn gryf i ymrwmo nid yn unig i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ond hefyd i gefnogi ieithoedd eraill ac i ddiogelu cymunedau eraill yng Nghymru nad oes ganddynt gymhwysedd digonol yn Gymraeg nac yn Saesneg. Byddai'r cam hwn yn cryfhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gymru fwy cyfartal, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a byddai nifer o bobl dan anfantais yn cael y sicrwydd o fynediad at driniaeth deg, ddiogel a chyfartal o dan y gyfraith, a hynny drwy gymorth proffesiynol cyfieithydd ar y pryd sydd â chymwysterau addas a'r sgiliau iaith gofynnol.”* (Sefydliad Siartredig yr Ieithyddion; Y Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd).
- *“Byddai sicrhau fod cynnig rhagweithiol yn cael ei gwneud i bob person fydd yn ymddangos mewn Tribiwnlys Datganoledig, fod modd siarad Cymraeg neu gael cyfieithiad i'r Gymraeg, yn cynyddu'r siawns y byddai rhywun am ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd cyfreithiol. Byddai tanlinellu na fyddai effaith negyddol o safbwynt defnyddio'r iaith (boed hynny o ran amseru neu o ran canfyddiad) hefyd yn cynyddu'r tebygrwydd fod rhywun yn defnyddio'r iaith. Yn wir dylid gwneud yn glir fod defnydd o'r iaith yn cael ei groesawu a bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n helaeth o fewn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi. Byddai fideo yn dangos sut mae dwy iaith Cymru yn cyd-blethu o fewn y gyfundrefn cyfiawnder yn helpu i wneud pobl deimlo'n fwy cysurus yn defnyddio'r Gymraeg.”* (Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru).

11.10. Dywedodd un ymatebydd (8%) ei fod yn ansicr.

11.11. Dywedodd wyth ymatebydd nad oedd ganddynt unrhyw beth yn rhagor i'w ychwanegu at eu hymateb i Gwestiwn 41, neu ailadroddon nhw eu hymateb i'r cwestiwn hwnnw.

11.12. Doedd gan 19 o'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad ddim sylw i'w wneud/ddim yn dymuno mynegi barn ar y cwestiwn hwn.

## 12. Sylwadau ychwanegol

### Cwestiwn 43

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

- 12.1. Defnyddiodd 15 o ymatebwyr y cwestiwn hwn i rannu eu safbwyntiau ar amrywiaeth o agweddau sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad.
- 12.2. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar rai o'r agweddau ehangach sy'n effeithio ar y diwygiadau:
  - *“Mae datganoli Cyfiawnder, gan gynnwys y system dribiwnlysoedd, yn gam blaengar, hollbwysig at sicrhau cyfiawnder ac at effeithlonrwydd i weithwyr Cyfiawnder.”* (Gethin Jones, Grŵp Undebau Cyfiawnder Cymru).
  - Ailadroddodd Cymdeithas Archifau a Chofnodion y DU ac Iwerddon ei phwyntiau am reoli a diogelu cofnodion, yn ogystal ag egluro statws cofnodion newydd a hen gofnodion. Ychwanegodd hefyd: *“Mae'r Gymdeithas hefyd yn credu y dylai'r materion i'w hystyried wrth ddatblygu rheolau ar gyfer Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Apêl gynnwys a ddylid cyhoeddi cofnodion o achosion tribiwnlysoedd, ac ar ba ffurf, er mwyn ennyn hyder y cyhoedd yn y cydbwysedd rhwng ystyriaethau preifatrwydd a diogelu data a thryloywder gwaith y system dribiwnlysoedd.”*
  - *“Yn fy marn i, mae'r Papur Gwyn yn mynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol. Yn yr un modd â fy rhagflaenydd fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Syr Wyn Williams, rwy'n llawn gefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r diwygiadau hyn ac (fel y bydd yn amlwg uchod) yn llawn gefnogi'r cynigion yn y Papur Gwyn... Ond hoffwn ychwanegu sylw byr am weithredu'r cynigion – (yn ddealladwy) ni ofynnwyd am sylwadau ar hyn yn y Papur Gwyn. Ar wahân i unrhyw gostau gweithredu – ac rwy'n nodi bod yr Uned Tribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd yn fach ac yn debygol o fod angen adnoddau ychwanegol i'w gwneud hi'n bosibl gweithredu – bydd diwygio Tribiwnlysoedd Cymru yn golygu, maes o law, bod angen ystyried y seilwaith o ran adeiladau, TG ac ati. Wrth gwrs, bydd hyn yn newid sylweddol – ond rwy'n hyderus, drwy edrych ar y materion hyn mewn ffordd wahanol ac arloesol, y byddwn yn gallu darparu system gyfiawnder effeithiol a hygyrch i bobl Cymru am gost resymol a chymesur.”* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
  - *“Nid yw hyn wedi cael sylw penodol, ond tybir y bydd system dribiwnlysoedd Cymru yn gysylltiedig â'r system llysoedd (ee darparu hawl i apelio o Dribiwnlys Apêl Cymru i'r Llys Apêl).”* (Dr Huw Evans, Prifysgol Metropolitan Caerdydd).

- *“Mae CDA Cymru’n cynnig gweithio gydag unrhyw Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd sy’n cael ei sefydlu, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a gweinyddiaeth ehangach y system dribiwnlysoedd newydd i eirioli dros groesawu dulliau amgen/arloesol o ddatrys anghydfodau (lle bo hynny’n briodol mewn awdurdodaethau penodol).”* (Canolfan Datrys Anghydfodau Cymru – Aelodau sy’n Ymarferwyr ac Aelodau Academaidd yn unig)

12.3. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ynghylch tribiwnlys penodol sydd eisoes yn bodoli:

- *“Cynnwys holl faterion 2021 ADY, gan gynnwys colegau, mewn deddfwriaeth a phawb hyd at 25 oed i apelio i Dribiwnlys yn hytrach na Llys y Goron (Dienw).*
- *“Rwy’n credu bod y system ar gyfer penodi aelodau cyfreithiol yn ddiffygiol iawn ar hyn o bryd, gan fod cyfreithwyr heb unrhyw brofiad o gyfraith iechyd meddwl yn cael eu penodi. Rwy’n credu mai dim ond cyfreithwyr iechyd meddwl sydd wedi’u hachredu gan Gymdeithas y Cyfreithwyr y dylid eu penodi, gan fod ganddynt brofiad helaeth o gyfraith iechyd meddwl.”* (Dienw).
- *“Rhaid i’r system newydd gynnwys yr hyblygrwydd i wir fodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys y rhai â diffyg galluedd. Dylid cael mecanweithiau sicrhau ansawdd priodol ar waith i sicrhau addasrwydd cynrychiolwyr i gyflawni’r rolau sy’n cael eu neilltuo iddynt. Rhaid i’r system hefyd sicrhau bod cynrychiolwyr (gan gynnwys rhieni) yn cael y wybodaeth a’r cymorth priodol i ddeall eu hawliau cyfreithiol.”* (Cynghrair Anghenion Ychwanegol Trydydd Sector Cymru).
- *“Rydym yn bryderus ynglŷn â sut bydd defnyddwyr tribiwnlysoedd yn cael gafael ar y gwasanaeth tribiwnlysoedd newydd... Mae’n hollbwysig bod cyllid priodol ar gyfer cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ar gael. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaeth yn y rheolau cymorth cyfreithiol, yn dibynnu ar ba dribiwnlys sy’n gwrando ar apel... Dim ond Help Cyfreithiol sydd ar gael yn Nhribiwnlys Addysg Cymru, sy’n cynnwys cyllid ar gyfer paratoi achos ond nid ar gyfer cynrychiolaeth... Rhaid datblygu system cymorth cyfreithiol gynhwysfawr, ar wahân yng Nghymru i alluogi cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol mewn achosion sy’n cael eu dwyn gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru.”* (Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru).
- *“Er mwyn i’r diwygiadau hyn weithio’n gyfan gwbl er budd pobl Cymru, rydym yn credu bod angen y canlynol hefyd: ymchwil academaidd parhaus mewn canolfannau rhagoriaeth ym mhrifysgolion Cymru; gwella’r broses gwneud penderfyniadau wreiddiol; gwell ymwybyddiaeth o egwyddorion cyfiawnder gweinyddol ymysg yr holl benderfynwyr a gweinyddwyr yng Nghymru; a swyddogaeth adnoddau dynol effeithiol, ar wahân fel rhan o’r tribiwnlys newydd.”* (Aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru).



12.4. Mynegodd dau ymatebydd eu pryderon ynglŷn â blaenoriaethau yng Nghymru a chost y diwygiadau.

## 13. Ymatebion y tu allan i gwestiynau'r ymgynghoriad

### Enwau'r tribiwnlysoedd

- 13.1. Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi gwneud sylwadau ynghylch enwau arfaethedig y tribiwnlysoedd sydd dan sylw yn y Papur Gwyn. Dyma'r sylwadau hyn:
- *'... gallai'r enw "Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru" achosi dryswch, gan ei fod mor debyg i "Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Lloegr".'* (Y Barnwr Claire Sharp, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru).
  - *'... Nid wyf yn cytuno o reidrwydd mai "Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru" a "Tribiwnlys Apêl Cymru" yw'r enwau gorau ar gyfer y ddau dribiwnlys arfaethedig. Rwy'n credu bod hwn yn fater y dylid ei ystyried ymhellach (a bod yn destun ymgynghoriad o bosibl), gyda'r nod o gael enwau sydd nid yn unig yn briodol ddisgrifiadol, ond mor gryno a syml ag sy'n ymarferol bosibl.'* (Syr Gary Hickenbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru).
  - *'Rydym yn credu, er budd eglurder a symlrwydd, y dylid galw'r tribiwnlys cyntaf yn Dribiwnlys Gweinyddol Cymru a'r tribiwnlys apêl yn Dribiwnlys Apêl Cymru.'* (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru).
  - *'Bydd enw sy'n wahanol i'r system dribiwnlysoedd Eingl-Gymreig bresennol yn dangos hunaniaeth Gymreig benodol tribiwnlys Cymru yn well'... Mae nifer o opsiynau: Ein dewis ni fyddai "Tribiwnlys Cymru".'* (Cyngor y Bar).
- 13.2. Nid oedd nifer o'r ymatebwyr wedi ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad, gan gyflwyno eu safbwyntiau dros e-bost, mewn llythyr neu ar bapur yn lle. Mae crynodeb o'r ymatebion hyn isod.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- 13.3. Cyflwynodd nifer o sefydliadau ddatganiadau a oedd yn tynnu sylw at agweddau arwyddocaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- 13.4. Cyflwynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bapur a oedd yn cynnwys y sylwadau canlynol:
- Plant a phobl ifanc yn parhau i allu cyflwyno eu hapeliadau eu hunain.
  - Yr angen am *"... strategaeth i Gymru ar gyfer mynediad ffisegol a digidol priodol at gyfiawnder gerbron tribiwnlysoedd"*.
  - Diffyg amrywiaeth ethnig yn y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr.
  - Cais am adolygiad o leihau'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol yng Nghymru.

- Yr angen am “... archwiliad llawn o’r dewisiadau ar gyfer gwella mynediad at iawn am wahaniaethu wrth ddiwygio’r system dribiwnlysoedd.”
- Yr angen i Lywodraeth Cymru drafod “...gyda phobl sy’n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig fel rhan o’r broses”.

13.5. Cyflwynodd Age Cymru ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- “Mae’n bwysig bod pobl hŷn yn gallu dewis cymryd rhan ym mhroses y tribiwnlys drwy ddull hybrid, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell ar-lein. Ar ben hynn, rhaid i bob dogfen sy’n ymwneud â’r tribiwnlys fod ar gael mewn fformat digidol a phapur, y gellir eu llwytho i fyny ar-lein neu eu hanfon drwy’r post.”
- “Mae achosion tribiwnlys yn gallu bod yn dasg frawychus i bobl ar y gorau, ond mae mynd i’r Llys i frwydro dros hawl i fudd-daliadau heb drefniant i gyfathrebu yn Gymraeg yn gallu achosi cryn straen i rai pobl, ac yn golygu nad ydynt yn gallu arfer eu hawliau i ddefnyddio’r Gymraeg... Wrth i’w cyflwr ddatblygu, gall pobl â dementia allu deall neu gyfathrebu yn eu mamiaith yn unig.”
- “I bobl hŷn sy’n dymuno bod yn bresennol mewn tribiwnlysoedd, mae’n bwysig bod yr amgylchedd adeiledig yn hygyrch ac yn gynhwysol, gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da i’r llys, digon o seddi mewn manau aros, lifftiau a dolenni sain os oes angen.”

13.6. Rhannodd Mind Cymru ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn canolbwyntio ar Dribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru, ac yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- “Hoffem bwysleisio cymaint o straen mae ymddangos mewn tribiwnlys yn gallu ei achosi i gleifion, ond pa mor bwysig yw hi fod llais y claf yn cael ei glywed ac yn cael ymateb priodol gyda’r lefel angenrheidiol o empathi, arbenigedd ac amser. Byddem yn awgrymu bod pobl â phrofiad bywyd o’r system dribiwnlysoedd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu’r cynigion ac o ddatblygu ymhellach a/neu adolygu pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith.”
- “Gwyddwn nad yw fersiwn gyfredol y Ddeddf Iechyd Meddwl mor deg ag y dylai fod, ac rydym wedi clywed gan gyfreithwyr iechyd meddwl bod hyn eisoes yn effeithio ar lwyth achosion y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, sydd eisoes yn fawr. Rhaid ystyried hyn fel rhan o’r cynigion hyn hefyd.”
- Hefyd, galwodd Mind am y newidiadau canlynol i weithrediad tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr: “Hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch triniaeth gan dribiwnlysoedd iechyd meddwl... Pwerau tribiwnlysoedd iechyd meddwl yn cynyddu yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol... Dylai’r tribiwnlys gael y pŵer i fynnu bod y clinigydd cyfrifol yn gwella cynllun (gofal a thriniaeth unigolyn)... Rydym yn cytuno y byddai rhagor o archwiliadau ac adolygiadau mwy rheolaidd o

*orchmynion cadw, a rhagor o fynediad at y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, yn fuddiol.”*

- Soniwyd hefyd am ba mor ddymunol fyddai cael cysondeb mewn dyfarniadau ar draws Cymru a Lloegr.
- Cadw'r dewis o wrandawiadau wyneb yn wyneb.
- *“Rhagor o drugaredd a dealltwriaeth o'r rhai sydd angen gofal iechyd meddwl cyn ac ar ôl geni.”*
- *“Mae uno'r tribiwnlysoedd datganoledig yn gyfle i Lywodraeth Cymru osod esiampl dda i'r Deyrnas Unedig yn ehangach drwy fuddsoddi mewn cymorth cyfreithiol.”*

13.7. Rhannodd Adferiad Recovery ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn canolbwyntio ar Dribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru, ac yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- *“Bydd hi'n bwysig sicrhau nad yw cyfuno gweinyddiaeth y Tribiwnlysoedd yn amharu ar yr hyfforddiant a'r arbenigedd sydd eu hangen ar staff gweinyddol i roi cymorth i gleifion a theuluoedd sy'n dod i gysylltiad â'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.”*
- *“Rhaid cael digon o adnoddau a rhaid cydnabod y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl fel blaenoriaeth oherwydd ei fod yn delio â'r materion sydd â'r canlyniadau mwyaf – cadw unigolion yn erbyn eu hewyllys.”*
- *“...caiff annibyniaeth ei chynnal, nid yn unig o ran ffurf ond o ran “diwylliant” hefyd.”*
- *“...byddai hyder yn y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yn cynyddu'n fawr pe bai rolau i bobl â phrofiad bywyd yn cael eu sefydlu yn aelodaeth y Tribiwnlys a'i weinyddiaeth.”*

13.8. Anfonodd Cymdeithas y Cyfreithwyr Iechyd Meddwl lythyr a oedd yn nodi nad oedd ganddi “... unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud am y cynigion a'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori; fodd bynnag, mae'n bryderus ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am sut bydd y cynigion, os dôn nhw i rym, yn cael eu cyflwyno'n ymarferol.” Mynegwyd awydd i ddeall y trefniadau pontio a'r effaith ar gleifion yn cael mynediad at y system, a'r risg o unrhyw oedi i geisiadau. Pryder arall oedd y potensial i'r system newydd fod yn “...or-fiwrocraidd”.

## **Sylwadau ynghylch Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru**

- 13.9. Cafwyd e-bost gan Gymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru (TFA Cymru), a oedd yn dweud: *“Gan fod y materion sy’n perthyn i awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol cyfredol Cymru, ... yn faterion o anghydfod rhwng unigolion preifat yn hytrach na rhwng dinasyddion a’r Wladwriaeth, byddai’n ymddangos yn rhesymol diwygio’r ffordd y mae costau niweidiol yn cael eu trin. Fel arfer, mae’n anodd iawn i’r parti llwyddiannus gael costau gan y parti aflwyddiannus oni bai fod amgylchiadau eithriadol sy’n cyfiawnhau talu’r costau hynny. O ystyried y diwygiadau sylweddol y byddwch yn eu rhoi ar waith, mae TFA Cymru’n credu y byddai’n adeg gyfleus i ymgorffori yn y fframwaith newydd y gallu i gostau mewn cysylltiad ag anghydfodau yn y Siambr Eiddo newydd i ddilyn y digwyddiad, fel sy’n digwydd yn y llysoedd neu mewn prosesau cymrodeddu.”*

## **Ymateb y Comisiwn Penodiadau Barnwrol**

- 13.10. Anfonodd Helen Pitcher OBE, Cadeirydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, lythyr a oedd yn dweud, *“O ystyried rôl gyffredinol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol o ran prosesau recriwtio barnwrol ar gyfer Cymru a Lloegr, a’n perthynas â rhanddeiliaid allweddol, rwy’n gobeithio y byddwch yn deall pam na fyddai’n briodol i ni wneud sylwadau manwl ar y mesurau penodol yn y papur. Fodd bynnag, rydym wedi dod i’r casgliad nad yw’r cynigion, fel y maent wedi’u hamlinellu ar hyn o bryd, yn destun pryder i ni, ond byddem yn tynnu sylw at y data dangosyddion amserlen a nodir yn ein hadroddiad blynyddol (tudalennau 17-18). Bydd hyn yn helpu eich swyddogion i ystyried amserlenni ar gyfer unrhyw weithgarwch recriwtio posibl drwy gydol y gwaith o gyflawni unrhyw ymarferion recriwtio yn y dyfodol.”*

## **Rhyngwyneb rhwng yr ombwdsman a thribiwnlysoedd**

- 13.11. *“... dylai sefydlu’r strwythur newydd ei gwneud hi’n bosibl egluro’r rhyngwyneb rhwng yr ombwdsman a thribiwnlysoedd, a chyflwyno proses gyfeirio neu gysylltiadau agosach rhyngddynt yn ffurfiol. Byddai un porth mynediad, lle byddai modd croesyfeirio neu drosglwyddo cwynion ac apeliadau i arbed y cyhoedd rhag gorfod gwneud cais ar wahân i fwy nag un llwybr datrys, yn ddefnydd da o adnoddau ac yn sicrhau bodddhad pob defnyddiwr, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn cael trafferthion gyda mwy nag un broblem ac asiantaeth, ac yn arwain at leihad posibl mewn adnoddau gweinyddol. (Dienw).*

## Sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg

13.12. Mewn llythyr, gwnaeth Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg nifer o sylwadau, gan gynnwys:

- *“Credwn fod sefydlu system o’r fath yn bwysig wrth i gyfraith ddatganoledig barhau i dyfu, ac er mwyn gosod sylfaen gadarn i sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg a’r defnydd o’r Gymraeg o fewn y system gyfiawnder.”*
- *“Credwn ... bod angen rhagor o fanylder ynghylch sut bydd cynigion y papur gwyn yn effeithio ar gyfundrefn safonau’r Gymraeg mewn perthynas â’r tribiwnlysoedd datganoledig.”*
- *“Credwn y dylai’r corff annibynnol hwn fod yn ddarostyngedig i safonau’r Gymraeg, a gan mai’r bwriad yw sefydlu’r corff drwy statud bydd cyfle i wneud hyn o’r cychwyn.”*
- *“Credwn ei bod yn bwysig bod unrhyw drefniadau penodi aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru yn gwneud yr un mor glir â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bod modd gwneud darpariaeth ynghylch sicrhau bod aelodau’r tribiwnlys yn gallu’r Gymraeg ac yn meddu gwybodaeth ohoni.”*
- *“... rydym yn derbyn yr angen i barhau â system o drawsneilltuo ar gyfer aelodau barnwrol, cyfreithiol a chyffredinol yn y system dribiwnlysoedd newydd. Er hyn, dylid sicrhau nad yw’r broses o drawsneilltuo yn golygu nad yw aelodau Siambr y Gymraeg â gwybodaeth o’r Gymraeg a hyfedredd ynddi.”*
- *“Credwn fod angen ystyried datblygu rheolau gweithdrefnol a chyfarwyddyd ymarfer tebyg ar gyfer y system dribiwnlysoedd newydd, yn benodol ar gyfer Siambr y Gymraeg y Tribiwnlys Haen Gyntaf a Thribiwnlys Apêl Cymru, fydd ddim yn ddarostyngedig i ofynion safonau’r Gymraeg.”*

13.13. Mewn e-bost, gwnaeth y Barnwr Iwan Jenkins, Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg nifer o sylwadau ar ran aelodau Tribiwnlys y Gymraeg, gan gynnwys:

- *“Mae’r aelodau’n gefnogol iawn o gynigion y Comisiynydd o ran ad-drefnu a chodeiddio sylfeini tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru... Mae esiamplau yn y system gyfredol sy’n anghyson ac weithiau’n aneglur ar gyfer defnyddwyr ac aelodau fel ei gilydd. Mae angen system glir a diamwys sy’n glir ac yn gyson i bawb. Mae gweithdrefnau cwyno yn un esiampl o’r fath.”*
- *“Mae gweinyddiaeth annibynnol ar gyfer y Tribiwnlysoedd datganoledig yn hollbwysig i osgoi unrhyw feirniadaeth bod gan Lywodraeth Cymru gysylltiad agos.”*

- *“Bydd cael y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i lywodraethu'r Tribiwnlysoedd yn gwella cysondeb dull gweithredu a disgyblaeth pob un. Mae'r system benodi wedi achosi cryn drafferth yn y gorffennol, gan ddigalonni ymgeiswyr oherwydd ei bod yn rhy hir a beichus. Mae aelodau sydd wedi croesi o un tribiwnlys i un arall ar gais wedi dweud bod y dull cyflymach a symlach yn ffordd well o weithredu.”*
- *“Byddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal o dan y system arfaethedig a byddai hyn yn gwella hygyrchedd a defnydd drwy roi blaenoriaeth a chyhoeddusrwydd priodol i'r iaith.”*

### **Sylwadau ynghylch Tribiwnlys Prasio Cymru**

- 13.14. Dywedodd Accessible Retail y canlynol mewn cysylltiad â Thribiwnlys Prasio Cymru: *“Nodwn y bwriad i gynnwys y Tribiwnlys hwn yn nhrefniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf newydd ac mewn ymateb i Gwestiynau 5 a 6, ni welwn unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r naill gynnig na'r llall. Fel y nodir, mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ffordd y mae'r Tribiwnlys Prasio yn gweithredu a'r Tribiwnlysoedd eraill yn y diwygiadau, ac felly rydym hefyd yn cytuno y dylid gadael iddo barhau i weithredu'n bennaf fel y mae wedi yn y gorffennol am y tro, a'i adolygu rhywbryd eto yn y dyfodol. O ran yr adolygiad hwnnw, pan gaiff ei gynnal, hoffai Accessible Retail fod ymysg y sefydliadau yr ymgynghorir â nhw.”*

### **Sylwadau gan Mark Isherwood, AS**

- 13.15. Ysgrifennodd Mark Isherwood, Aelod o'r Senedd ac o Blaid Geidwadol Cymru, atom gyda'r sylwadau canlynol:
- *“... dylai'r gwasanaeth tribiwnlysoedd fod yn annibynnol yn weithredol ar Lywodraeth Cymru.”*
  - *“O dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, o'r uwch dribiwnlys, mae posibilrwydd o apelio i'r Llys Apêl ac o fan yno i'r Goruchaf Lys. Hoffem i'r mesur diogelu hwn fod yn berthnasol i'r system dribiwnlysoedd newydd sy'n cael ei chynnig ar gyfer Cymru hefyd.”*
  - *“Cynigir fod dulliau symlach a chydlynol [yn cael eu defnyddio] ar gyfer penodi aelodau o dribiwnlysoedd a chwynion ar draws y system dribiwnlysoedd newydd. Rhaid i hyn sicrhau teilyngdod a manylrwydd, ac annibyniaeth oddi wrth y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa.*
  - *“Hoffai'r Ceidwadwyr Cymreig weld rhagor o gamau gorfodi ar Gyrrff Cyhoeddus nad ydynt yn cyflawni gorchmynion tribiwnlysoedd.”* Roedd hyn mewn cysylltiad â *“phryderon... bod plant agored i niwed a'u teuluoedd yng Nghymru yn cael eu siomi oherwydd nad oes gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gynt, na'i gorff olynol nawr, unrhyw bwerau gorfodi ac ni all gymryd camau gorfodi pellach pan na fydd y cyrff cyhoeddus perthnasol yn dilyn eu cyfarwyddiadau.”*

## Atodiad 1 – Rhestr o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

### Sefydliadau:

Cyfeirnod	Sefydliad	Math	Iaith
X001	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Corff Cyhoeddus Arall	Saesneg
007	Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Awdurdod Lleol	Saesneg
X002	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Cymru	Corff Proffesiynol	Saesneg
X004	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	Corff Proffesiynol	Cymraeg
009	SNAP Cymru	Sefydliad Trydydd Sector	Saesneg
010	Cyngor Sir Gaerfyrddin – Pwyllgor Safonau	Awdurdod Lleol	Saesneg
011	Cymdeithas Archifau a Chofnodion, y DU ac Iwerddon	Corff Proffesiynol	Saesneg
013	Cyngor Sir Ceredigion	Awdurdod Lleol	Saesneg
X005	Propertymark	Corff Proffesiynol	Saesneg
X008	Tribiwnlys Prisio Cymru	Tribiwnlys	Saesneg
X009	Cymdeithas y Cyfreithwyr Iechyd Meddwl	Corff Proffesiynol	Saesneg
015	Cyngor Sir y Fflint	Awdurdod Lleol	Saesneg
016	Sefydliad Siartredig yr Ieithyddion; Y Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd	Corff Proffesiynol	Saesneg
X010	Cynghrair Anghenion Ychwanegol Trydydd Sector Cymru	Sefydliad Trydydd Sector	Saesneg
X011	Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol	Corff Cyhoeddus Arall	Saesneg
X016	Mind Cymru	Sefydliad Trydydd Sector	Saesneg
X019	Accessible Retail	Corff Proffesiynol	Saesneg



Cyfeirnod	Sefydliad	Math	Iaith
X022	Age Cymru	Sefydliad Trydydd Sector	Saesneg
X023	Adferiad Recovery	Sefydliad Trydydd Sector	Saesneg
X024	Cyngor y Bar	Corff Cyhoeddus Arall	Saesneg
X026	Awdurdod Lleol Bro Morgannwg	Awdurdod Lleol	Saesneg
X027	Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw	Corff Proffesiynol	Saesneg
X028	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Corff Cyhoeddus Arall	Saesneg
X029	Cymdeithas y Gyfraith Cymru	Corff Proffesiynol	Saesneg
X031	Cyngor Dinas Casnewydd	Awdurdod Lleol	Saesneg
X032	Derbyniadau i Ysgolion Sir Gaerfyrddin	Awdurdod Lleol	Saesneg
X033	Cyngor Caerdydd	Awdurdod Lleol	Saesneg

#### Unigolion ar ran sefydliadau:

Cyfeirnod	Enw	Sefydliad	Math	Iaith
X003	Y Barnwr Claire Sharp, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru	Panel Dyfarnu Cymru	Tribiwnlys	Saesneg
X006	Y Barnwr Carolyn Kirby OBE, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	Tribiwnlys	Saesneg
X007	Y Barnwr Iwan Jenkins	Tribiwnlys y Gymraeg	Tribiwnlys	Saesneg
017	Gethin Jones	Grŵp Undebau Cyfiawnder Cymru	Corff Proffesiynol	Saesneg

Cyfeirnod	Enw	Sefydliad	Math	Iaith
X017	Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru	Tribiwnlys Addysg Cymru	Tribiwnlys	Saesneg
X018	Keith Bush CB ar ran Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru	Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru	Corff annibynnol	Saesneg
X020	Mark Isherwood AS	Plaid Geidwadol Cymru	Cynrychiolydd Etholedig	Saesneg
X025	Y Barnwr Richard Payne, Llywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl	Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl	Tribiwnlys	Saesneg
X030	Dr Sarah Nason ar ran yr aelodau sy'n ymarferwyr a'r aelodau academaidd o Ganolfan Datrys Anghydfodau Cymru	CDA Cymru – Aelodau sy'n Ymarferwyr ac Aelodau Academaidd	Corff annibynnol	Saesneg

### Unigolion:

Cyfeirnod	Enw	Sefydliad	Iaith
001	Dienw	Unigolyn	Cymraeg
002	Dienw	Unigolyn	Saesneg
003	Dienw	Unigolyn	Saesneg
004	Dienw	Unigolyn	Saesneg
005	Dienw	Unigolyn	Saesneg
006	Dienw	Unigolyn	Saesneg
008	Dienw	Unigolyn	Saesneg
012	Dienw	Unigolyn	Saesneg
014	Dienw	Unigolyn	Saesneg
X012	Syr Gary Hickenbottom	Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru	Saesneg
X013	Dr Huw Evans	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Saesneg

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Iaith</b>
X014	Dienw	Unigolyn	Dwyieithog
X015	Efa Gruffudd Jones	Comisiynydd y Gymraeg	Dwyieithog
018	Dienw	Unigolyn	Saesneg
X021	Yr Athro Sir Adrian Webb; Bob Chapman; Gareth Lewis; Rhian Williams-Flew	Cyn aelodau o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru	Saesneg
019	Angela Hopkin	Unigolyn	Saesneg
020	Dienw	Unigolyn	Saesneg
021	Dienw	Unigolyn	Cymraeg